Centre of expertise on child sexual abuse

# Cynllunio diogelwch mewn addysg

## Canllaw i weithwyr proffesiynol yn rhoi cymorth i blant yn dilyn digwyddiad o ymddygiad rhywiol niweidiol





Medi 2022

Cydnabyddiaeth

Dymunwn ddiolch i staff yn y sefydliadau canlynol am eu cymorth gydag adolygu'r adnodd hwn yn ystod y gwaith o'i ddatblygu:

*Archbishop Tenison's Church of England High School, Croydon*

*College Central Hastings*

*Harris City Academy Crystal Palace*

*Headington School, Rhydychen*

*Safeguarding Network*

*St Richard's Catholic College, Bexhill*

*Ysgol Uwchradd Teilo Sant yr Eglwys yng Nghymru, Caerdydd*

*Shoreham College, Shoreham-by-Sea*

*Swakeleys School for Girls, Hillingdon*

*Whiteheath Infant and Nursery School, Hillingdon*

*Ysgol Ffordd Dyffryn, Llandudno*

## Gair am y Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol (Ganolfan CPRh)

Ein nod cyffredinol yw lleihau effaith cam-drin plant yn rhywiol drwy atal ac ymateb gwell, fel bod plant yn gallu byw'n rhydd o fygythiad a niwed cam-drin rhywiol.

## Pwy ydym ni

Rydym yn dîm amlddisgyblaeth, wedi ein hariannu gan y Swyddfa Gartref a'n gweinyddu gan Barnardo's. Gweithiwn yn agos â phartneriaid allweddol o sefydliadau academaidd, awdurdodau lleol, iechyd, addysg, yr heddlu a'r sector gwirfoddol.

## Ein nodau

Y nodau y gweithiwn i'w cyrraedd yw:

- cynyddu'r flaenoriaeth a roddir i gam-drin plant yn rhywiol, drwy wella dealltwriaeth o'i raddfa a'i natur
- sicrhau bod mwy'n cael ei wneud i adnabod ac ymateb yn well i blant a phobl ifanc sydd wedi eu cam-drin yn rhywiol
- galluogi tarfu ac atal cam-drin plant yn rhywiol yn fwy effeithiol, drwy well dealltwriaeth o ymddygiad sy'n cam-drin yn rhywiol.

## Yr hyn a wnawn

Rydym yn ceisio cyflwyno'r newidiadau hyn drwy:

- cynhyrchu a rhannu gwybodaeth am raddfa a natur cam-drin plant yn rhywiol, a'r ymateb iddo
- mynd i'r afael â bylchau mewn gwybodaeth drwy rannu ymchwil a thystiolaeth
- darparu hyfforddiant a chymorth i weithwyr proffesiynol ac ymchwilwyr sy'n gweithio yn y maes
- ymgysylltu â pholisi a dylanwadu arno

Am fwy o wybodaeth am ein gwaith, ewch i'n gwefan yn:
**www.csacentre.org.uk**

Ysgrifennwyd yr adnodd hwn gan Lorraine Myles a Natasha Sabin o'r Ganolfan CPRh, a Joe Dove, ymgynghorydd annibynnol.

# Cynnwys


Rhagarweiniad ..... 5

Cynllunio diogelwch: crynodeb ..... 7

**Rhan A. Beth sydd angen ei wneud? ..... 9**

A1. Ystyried natur a difrifoldeb yr ymddygiad rhywiol ..... 10

A2. Siarad yn syth â'r plant oedd yn rhan o'r digwyddiad, a'u rhieni ..... 12

A3. Rheoli cyfathrebu o gwmpas y digwyddiad ..... 13

A4. Ystyried y risgiau ac ymatebion posib ..... 14

A5. Cynnal cyfarfod cynllunio diogelwch i bob plentyn ..... 16

Templed cynllun diogelwch ..... 17

A6. Creu, rhannu a gweithredu'r cynllun diogelwch ..... 18

A7. Adolygu'r cynllun diogelwch ..... 19

**Rhan B. Sut orau allwch chi helpu'r holl blant oedd yn rhan o'r digwyddiad? ..... 21**

B1. Deall yr ymddygiad rhywiol a ddigwyddodd ..... 22

B2. Siarad â'r plant oedd yn rhan o'r digwyddiad ..... 23

B3. Siarad gyda rhieni'r plant ..... 28

B4. Asesu'r risg o niwed pellach ..... 32

B5. Rheoli cyswllt rhwng y plant ..... 34

B6. Trefniadau i ystyried eu cynnwys yn y cynllun diogelwch ..... 36

B7. Rheoli digwyddiadau ochr yn ochr ag ymchwiliad heddlu ..... 40

B8. Lleihau a dod â threfniadau'r cynllun diogelwch i ben yn raddol ..... 42

B9. Cefnogi plant ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau ..... 44

**Atodiadau ..... 47**

Atodiad 1. Datblygu protocol/polisi ar ymateb i ymddygiad rhywiol niweidiol ..... 48

Atodiad 2. Sefydliadau ac adnoddau defnyddiol ..... 49

# Rhagarweiniad

Er mwyn cadw pethau'n syml, defnyddiwn y term **'plentyn'** i olygu unrhyw un dan 18 oed yn yr adnodd hwn. Fodd bynnag mae'n bwysig cofio y gall plant yn eu harddegau, yn ogystal â phlant iau, gael eu cam-drin yn rhywiol.

Defnyddiwn y term **'rhieni'** i gynnwys holl rieni/gofalwyr plentyn – gan gynnwys rhieni biolegol, llys-rieni, rhieni mabwysiadol, rhieni maeth a pherthnasau eraill a allai fod yn brif ofalwr am y plentyn, fel neiniau a theidiau.

Defnyddiwn **'ysgol'** i gyfeirio at fan dysgu plentyn; gallai hyn fod yn ysgol gynradd neu uwchradd (gan gynnwys ysgolion preswyl), darparwyr ôl-16, unedau cyfeirio disgyblion, ayyb.

Rydym wedi dewis osgoi rhai termau sydd weithiau'n cael eu deall yn wahanol neu sy'n teimlo'n anghyffyrddus i rai pobl:

- Yn lle 'cam-drin rhwng plant/pobl ifanc' gan rai dan 18 oed, siaradwn am **ymddygiad rhywiol niweidiol gan blentyn neu blant tuag at blentyn arall neu blant eraill**.
- Yn lle 'camdriniwr', siaradwn am **y plentyn sydd wedi niweidio/achosi niwed**.
- Yn lle 'datgelu ymddygiad rhywiol niweidiol', dyewdwn dweud wrth weithiwr proffesiynol neu dermau tebyg. Gall 'dweud' gynnwys cyfathrebu'n llafar a/neu'n ddieiriau.

Defnyddiwn y term **'sgwrs'** wrth gyfeirio at weithiwr proffesiynol yn cyfathrebu gyda phlentyn, gan gynnwys cyfathrebu'n ddieiriau.

## I bwy y mae'r adnodd hwn?

Mae'r adnodd hwn i'r holl weithwyr proffesiynol mewn ysgolion a llefydd dysgu eraill i blant, gan gynnwys unedau cyfeirio disgyblion ac ysgolion arbennig; nid dim ond ar gyfer Arweinwyr Diogelu Dynodedig (ADD).

Gellir ei ddefnyddio i dywys eich meddwl am sut i gefnogi plant o unrhyw oed, gan gynnwys rhai ag anghenion addysgol arbennig, yn dilyn digwyddiad o ymddygiad rhywiol niweidiol. Ar ôl digwyddiad o'r fath, bydd angen cymorth ar y plentyn/plant a niweidiwyd ac ar y plentyn/plant a niweidiodd. Awgrymwn fod gwerth mewn defnyddio'r canllaw hwn i fyfyrio ar bolisïau a gweithdrefnau presennol eich ysgol, gan ystyried a ellid cryfhau unrhyw feysydd cyn i rywbeth ddigwydd yn y lle cyntaf.

Rydym wedi ceisio bod mor benodol â phosib o ran adnabod pwy yn yr ysgol sy'n gyfrifol am wneud beth ar ôl digwyddiad, ond gan gydnabod bod amgylchiadau ac adnoddau'n amrywio o'r naill ysgol i'r llall: bydd gan rai dîm o swyddogion diogelu ac eraill dim ond ag un efallai. Mae'n bwysig deall, er mai'r ADD sy'n bennaf gyfrifol am reoli'r sefyllfaoedd hyn, y dylai unrhyw un sy'n gweithio gyda phlant fod yn gallu siarad â phlentyn am gam-drin rhywiol, gan gynnwys ymddygiad rhywiol niweidiol. Er enghraifft, gyda chymorth gan y ADD, efallai mai athrawes neu athro dosbarth, goruchwyliwr amser cinio neu aelod arall o staff yr ysgol fyddai'r person gorau i siarad yn uniongyrchol â'r plentyn.

## Beth y mae'r adnodd hwn yn ei drafod?

Mae ystod o wahanol fathau o ymddygiad rhywiol cyffredin ac iach y gall plant ei ddangos ar wahanol adegau yn eu datblygiad. Os credir bod eu hymddygiad y tu allan i'r ystod yma, gellir ei alw'n 'niweidiol' oherwydd ei fod yn achosi niwed iddyn nhw neu eraill.

Er na allwn restru'r holl ddigwyddiadau a allai eich ysgogi i ddefnyddio'r adnodd hwn, mae wedi'i ddylunio'n bennaf i'ch helpu i wybod beth i'w wneud pan fydd digwyddiadau o ymddygiad rhywiol niweidiol yn effeithio ar neu'n achosi niwed i blentyn neu blant eraill, ac angen i chi fel ysgol ystyried diogelwch a lles yr holl blant perthnasol. Gall y digwyddiadau hyn ddigwydd wyneb yn wyneb, gyda chymorth technoleg, neu gynnwys elfennau o'r ddau.

Gallai fod adegau pan fydd plentyn wedi dangos ymddygiad rhywiol niweidiol tuag at oedolyn neu blant mewn ysgol arall. Er na ysgrifennwyd y canllaw hwn i ymateb yn benodol i'r digwyddiadau hyn, bydd llawer o'r cynnwys yn berthnasol.

## Sut y gall yr adnodd hwn eich helpu?

Gall fod yn anodd ymateb i ddigwyddiadau o ymddygiad rhywiol niweidiol. Nod yr adnodd hwn yw helpu'r ysgol i wneud penderfyniadau am sut orau i gadw'r holl blant perthnasol yn ddiogel. Dylid gwneud y penderfyniadau hyn drwy gynnwys y plant perthnasol a'u rhieni, a gosod hyn allan mewn **cynllun diogelwch**.

Mae'r adnodd mewn tair rhan:

- Mae **Rhan A** yn rhoi eglurhad byr o'r **prif gamau** i'r ysgol eu cymryd ar ôl digwyddiad o ymddygiad rhywiol gan blant. Mae'n cynnwys rhoi arweiniad ar gadarnhau a oes angen ymateb i'r ymddygiad, a **thempled cynllun diogelwch** i gofnodi ac adolygu'r trefniadau i sicrhau diogelwch yr holl blant perthnasol.
- Mae **Rhan B** yn cynnwys cyngor ymarferol ar gynllunio diogelwch. Mae'n cynnwys awgrymiadau ar gyfer cyfathrebu â'r plant perthnasol a'u rhieni, a rhestr fanwl o'r **trefniadau y gallech fod eisiau ystyried eu cynnwys yn y cynllun diogelwch**.
- Mae'r **atodiadau** yn gosod allan yn fyr sut y gall eich ysgol baratoi ei hun ar gyfer digwyddiadau o ymddygiad rhywiol niweidiol, gan roi dolenni i adnoddau defnyddiol ar gyfer ysgolion a rhieni.

Cofiwch bob amser bod y plentyn/plant a niweidiodd a'r plentyn/plant a niweidiwyd – yn ogystal ag unrhyw blant eraill yr effeithiwyd arnynt – yn blant yn gyntaf ac yn bennaf a bod angen cefnogi eu diogelwch, iechyd a'u lles. Fodd bynnag, nid yw anghenion y plant hyn yr un fath a gallent wrthdaro.

**Dylai fod gan eich ysgol brotocol/polisi diweddar yn ei le'n barod i dywys eich penderfyniadau'n dilyn digwyddiad o ymddygiad rhywiol niweidiol – a dylai'r staff i gyd fod yn ymwybodol ohono ac yn hyderus yn ei weithredu. Os nad oes gan eich ysgol bolisi o'r fath, neu mae angen diweddaru'r polisi, ewch i Atodiad 1.**

Sail yr adnodd hwn yw *Cadw Dysgwyr yn Ddiogel* ac *Canllawiau i Leoliadau Addysg am Gam-drin Rhywiol, Camfanteisio ac Ymddygiad Rhywiol Niweidiol gan Gyfoedion*, a gyhoeddwyd gan Llywodraeth Cymru yn 2022 a 2020 yn eu tro.

.

# Cynllunio diogelwch: crynodeb

Yn dilyn digwyddiad o ymddygiad rhywiol niweidiol, mae nifer o gamau y dylai'r ysgol eu cymryd i benderfynu a oes angen cynllun diogelwch, ac er mwyn datblygu cynllun cadarn ac effeithiol. Gall gwahanol ysgolion fynd ati i wneud y pethau hyn yn wahanol neu mewn trefn wahanol ac nid oes raid dilyn y rhestr isod yn ddiwyro.

| Yr adran berthnasol yn Rhan A | Cam Gweithredu | Y cyngor perthnasol yn Rhan B |
|---|---|---|
| A1 | Ystyried natur a difrifoldeb yr ymddygiad rhywiol cyn gynted â phosib ar ôl y digwyddiad. | B1 |
| A2 | Siarad yn syth â'r plant perthnasol a'u rhieni. | B2, B3, B9 |
| A3 | Bod yn barod i ddelio ag unrhyw gyfathrebu'n ymwneud â'r digwyddiad, o fewn ac efallai y tu allan i gymuned yr ysgol. | B2, B3 |
| A4 | Ystyried: | |
| | • y risgiau sy'n parhau i'r holl blant perthnasol | B4, B7 |
| | • sut y gellir rheoli'r cyswllt rhwng y plant | B5 |
| | • camau posib i'w cymryd a threfniadau sy'n addas i bob plentyn. | B6 |
| A5 | Cynnal cyfarfod cynllunio diogelwch ar gyfer bob **plentyn a niweidiwyd** a'u rhiant/rhieni, i ddrafftio a chytuno ar gynnwys y cynllun diogelwch.<br><br>Gwneud yr un fath ar gyfer y **plentyn a niweidiodd**, a'u rhieni.<br><br>Yn ddelfrydol, dylid gwneud hyn o fewn cwpwl o ddiwrnodau i'r digwyddiad. | B6, B9 |
| A6 | Creu'r cynllun diogelwch, rhannu'r rhannau perthnasol â'r holl blant oedd yn rhan o'r digwyddiad, a'u rhieni, a chadarnhau eu bod yn deall y trefniadau. Dechrau gweithredu'r cynllun.<br><br>Os oes angen cynllun diogelwch, mae'n awgrymu bod risgiau posib sydd angen eu rheoli, felly bydd cael cynllun yn ei le mor fuan â phosib o fudd i bawb. | B7 |
| A7 | Adolygu'r cynllun diogelwch yn rheolaidd hyd nes y gellir rhoi heibio'r mesurau diogelwch. | B8 |

# Rhan A. Beth sydd angen ei wneud?

# A1. Ystyried natur a difrifoldeb yr ymddygiad rhywiol

Mae hyn yn gam cyntaf hanfodol ar ôl unrhyw ddigwyddiad o ymddygiad rhywiol an blentyn.

Mae'n bwysig cofio bod rhai mathau o ymddygiad rhywiol yn rhan o ddatblygiad rhywiol normal ac iach mewn plant. Mae'r Athro Simon Hackett wedi datblygu continwwm[1] i ddisgrifio ymddygiad rhywiol gan blant:

| | |
|---|---|
| **Normal** | Gyda chonsensws, cydgytundeb, yn ddwyochrog a disgwyliedig i'w datblygiad, gan rannu penderfyniadau |
| **Amhriodol** | Digwyddiadau untro'n unig; fel arfer gyda chonsensws, yn ddwyochrog a derbyniol mewn grŵp cyfoed, ond efallai mewn cyd-destun amhriodol |
| **Problematig** | Efallai'n gymdeithasol annisgwyl, datblygiadol anghyffredin, a diatal, ond heb elfen o fictimeiddio; efallai'n unochrog neu heb bŵer cyfartal |
| **Camdriniol** | Ymwthiol gyda bwriad neu ganlyniad sy'n fictimeiddio; yn aml gydag elfen o fod yn ddichellgar, cam-ddylanwadu, neu ddiffyg caniatâd |
| **Treisgar** | Ymwthiol iawn ac efallai ag elfen o sadistiaeth |

Mae'r continwwm yn cydnabod bod rhai adegau pan fydd ymddygiad rhywiol plant yn destun pryder. Mae Hackett yn galw hyn yn **'ymddygiad rhywiol niweidiol'** gan ei ddiffinio fel:

*Ymddygiad rhywiol gan blant a phobl ifanc dan 18 oed sy'n amhriodol i ddatblygiad, sydd efallai'n niweidiol iddyn nhw eu hunain neu i eraill, neu sy'n gamdriniol tuag at blentyn neu berson ifanc arall, neu oedolyn.*

Defnyddiwch y lle isod i gofnodi eich meddyliau am natur a difrifoldeb yr ymddygiad rhywiol a welwyd neu a adroddwyd, gan gynnwys unrhyw ddigwyddiadau hysbys (blaenorol a phresennol). Efallai y bydd angen siarad â'r plant perthnasol cyn cofnodi'r meddyliau hyn – ewch i Adran **A2**.)

## Beth wyddom ni am yr ymddygiad rhywiol?

Mae Adran **B1** yn cynnwys cyngor i'ch helpu i ennill dealltwriaeth lawn o'r ymddygiad rhywiol.

1 Hackett, S. (2010) Children and young people with harmful sexual behaviours. Yn Barter, C. and Berridge, D. (eds.) *Children Behaving Badly? Peer Violence between Children and Young People.* Chichester: Blackwell Wiley. https://doi.org/10.1002/9780470976586.ch9

Os yw plant yn dangos ymddygiad rhywiol sydd ddim yn 'normal' cyn cyrraedd y glasoed, mae'n fwy tebygol o fod yn *amhriodol* neu *broblematig* na'n *gamdriniol* neu *dreisgar*. Gallai plant ifanc fod yn 'ail-actio' camdriniaeth a brofwyd ganddynt eu hunain, neu'n ymateb i drawma ac esgeulustod arall; mewn rhai sefyllfaoedd, gallent ddefnyddio ymddygiad rhywiaethol fel estyniad o fwlio.

Cyfeirir at ymddygiad plant ifanc iawn yn aml fel ymddygiad 'rhywiol ymatebol'; dylech bob amser ystyried a yw'r plentyn wedi cael eu cam-drin yn rhywiol eu hunain.

Dechrau'r arddegau yw'r oed mwyaf cyffredin i ymddygiad rhywiol niweidiol ddigwydd, gan amlaf gan fechgyn. Mae rhai gwahaniaethau rhwng y rhywiau; mae merched sy'n ymddwyn yn rhywiol niweidiol yn tueddu i wneud hynny'n iau na bechgyn. Fodd bynnag, mae'n bwysig deall y gall ymddygiad rhywiol niweidiol ddigwydd mewn perthynas o'r un rhyw rhwng bechgyn a genethod, efallai gan rai sy'n adnabod eu hunain fel traws-ryweddol neu anneuaidd.

**Pwynt myfyrio**

Mae llawer o blant sy'n ymddwyn yn rhywiol niweidiol wedi cael profiad o gam-drin (gan gynnwys cam-drin corfforol neu rywiol, neu'n byw mewn cartref gyda cham-drin domestig) neu drafferthion eraill yn eu bywydau. Mae'n bwysig ystyried pa brofiadau y mae'r plentyn wedi eu cael, a sut y gallent fod wedi cyfrannu at eu hymddygiad.

Os ydych yn poeni bod y plentyn efallai'n cael niwed, dylech gyfeirio at y gwasanaethau gofal cymdeithasol plant.

Bydd deall difrifoldeb yr ymddygiad yn eich helpu i gymryd camau priodol fydd yn sicrhau diogelwch yn eich ysgol. Er na all y ddogfen hon roi ymateb enghreifftiol i bob ymddygiad posib, mae'n bwysig cofio bod angen ymateb ar bob ymddygiad rhywiol nad yw'n cael ei ystyried i fod yn 'normal', a rhaid rhoi gwybod i'r **Arweinydd Diogelu Dynodedig** (ADD) bob tro os yw plentyn yn dangos ymddygiad o'r fath:

| **Ymddygiad amhriodol neu broblematig** | **Ymddygiad camdriniol neu dreisgar** |
|---|---|
| Fe *allai'r* ymateb i hyn fod mor syml â dweud wrth y plentyn nad yw eu hymddygiad yn dderbyniol, a pham.<br><br>Os oes angen ymateb mwy sylweddol, bydd angen i'r ADD arwain ar ddatblygu a gweithredu cynllun diogelwch i'r holl blant oedd yn rhan o'r digwyddiad.<br><br>Gallai'r gwasanaethau cymdeithasol plant a/neu'r heddlu ymchwilio i ymddygiad problematig a gyfeiriwyd atynt gan eich ADD, gan ddibynnu ar gyd-destun y digwyddiad(au); maen nhw'n annhebygol o ymchwilio i ymddygiad amhriodol. | Bydd y ADD yn cyfeirio at y gwasanaethau cymdeithasol plant; gallai'r heddlu ymchwilio i'r mater.<br><br>Hefyd, bydd y ADD yn arwain ar ddatblygu a gweithredu cynllun diogelwch i'r holl blant oedd yn rhan o'r digwyddiad. |

# A2. Siarad yn syth â'r plant oedd yn rhan o'r digwyddiad, a'u rhieni

Dylech siarad â'r holl blant oedd yn rhan o'r digwyddiad, a gyda rhieni'r plant a niweidiodd ac a niweidiwyd. Disgrifiwn brif elfennau'r sgyrsiau hyn isod ond dylid cofio nad oes angen i'r sgyrsiau ddigwydd yn yr union drefn hon; gallai fod yn briodol siarad ag unrhyw dystion i'r digwyddiad yn gyntaf, er enghraifft.

**Siarad â'r plentyn/plant a niweidiwyd**

Dylid cofnodi eu hanes nhw o'r hyn a ddigwyddodd a cheisio eu sicrhau nad eu bai nhw oedd yr hyn a ddigwyddodd.

Dylid dweud wrthynt y bydd hefyd angen i chi siarad â thystion eraill, os oes rhai.

Gofynnwch iddynt a oes angen cymorth yn y fan a'r lle arnynt (e.e. cwmni ffrind neu amser tawel i ffwrdd o'u cyfoedion).

**Siarad â'r plentyn/plant a niweidiodd**

Dylid cofnodi eu hanes nhw o'r hyn a ddigwyddodd.

Dywedwch wrthynt beth sydd angen i chi ei wneud nesaf. Gallai hyn olygu eu cadw i ffwrdd o'u cyfoedion neu eu rhoi mewn dosbarth arall.

**Siarad ag unrhyw dystion**

Dylid cofnodi eu hanes nhw o'r hyn a ddigwyddodd ac atgoffa bod angen disgresiwn – gan gynnwys peidio â siarad ag eraill, hyd yn oed os oes pwysau arnynt i wneud, a pheidio â rhannu gwybodaeth ar y cyfryngau cymdeithasol.

Dylid egluro beth i'w wneud os bydd eraill yn gofyn iddynt am wybodaeth neu os ydynt yn dod yn ymwybodol o unrhyw negeseuon di-fudd ar y cyfryngau cymdeithasol.

**Siarad â rhieni'r plentyn/plant a niweidiwyd**

Dylid tawelu eu meddyliau o ran sut y mae'r ysgol yn ymchwilio/ymateb.

Lle bo'n briodol, dylid cytuno ar drefniadau eraill fel bo'r plentyn yn cyrraedd adref.

**Siarad â rhieni'r plentyn/plant a niweidiodd**

Dylid tawelu eu meddyliau o ran sut y mae'r ysgol yn ymchwilio/ymateb.

Lle bo'n briodol, dylid cytuno ar drefniadau eraill fel bo'r plentyn yn cyrraedd adref.

Mae Adrannau **B2** a **B3** yn rhoi cyngor ar gael eich sgyrsiau cychwynnol gyda'r plant (yn y naill Adran) a'u rhieni (yn yr Adran arall). Mae Adran **B9** yn rhoi cyngor pellach os oes gan unrhyw un o'r plant anghenion addysgol arbennig neu anableddau.

Gallai hefyd fod yn beth da i oedolyn dibynadwy gyfarfod â phob plentyn ar wahân, cyn y cyfarfodydd cynllunio diogelwch, i holi eu barn a'u persbectif ar yr ysgol, eu gwersi, eu hwyliau/stad ac unrhyw ddylanwad arall arnynt a ddylai gael ei adlewyrchu mewn cynllun diogelwch.

# Rheoli cyfathrebu o gwmpas y digwyddiad

A3.

Pan ddaw digwyddiad o ymddygiad rhywiol niweidiol i'r golwg, ni ddylid fel arfer ei gyfathrebu i neb ar wahân i'r plant perthnasol a'u rhieni. Ond gallai fod adegau pan fydd eraill yn dod i wybod am y mater, o fewn ac efallai y tu allan i gymuned yr ysgol.

(Mae Adrannau **B2** a **B3** yn rhoi cyngor ar **leihau'r tebygolrwydd** bod y plant perthnasol neu eu rhieni'n rhannu gwybodaeth am yr hyn a ddigwyddodd.)

Ceisiwch **ragweld unrhyw sylw yn y cyfryngau**, gan gynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol, ac ymateb i unrhyw sefyllfa sy'n codi cyn gynted â phosib i leihau'r niwed posib i blant a'r ysgol.

**Plant yn rhannu gwybodaeth am y digwyddiad, gan gynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol**

↓

O ystyried mynediad plant at gyfryngau cymdeithasol, gallai gwybodaeth (anghywir efallai) am y digwyddiad gael ei rhannu ar-lein. Dylid siarad ag unrhyw blant y gwyddoch sydd wedi cyfathrebu'r digwyddiad, a rhoi gwybod iddynt sut y gallai hyn fod yn ddi-fudd a niweidiol i'r plant perthnasol.

Os yw rhieni'r plant oedd yn rhan o'r digwyddiad ymddygiad rhywiol niweidiol yn poeni bod eu plant yn cael eu tynnu mewn i gyfathrebu'n ddi-fudd â phlant eraill am yr hyn a ddigwyddodd, dylid eu cefnogi i drafod hyn gyda'r plant a gosod ffiniau priodol ar ddefnyddio eu dyfeisiau. Mae. **Atodiad 2** yn cynnwys dolenni i wybodaeth i rieni am y cyfryngau cymdeithasol a diogelwch ar y we.

**Rhieni'n rhannu gwybodaeth am y digwyddiad, gan gynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol**

↓

Os yw rhieni unrhyw un o'r plant oedd yn rhan o'r digwyddiad yn rhannu gwybodaeth (anghywir efallai) am y digwyddiad â rhieni eraill yn y gymuned, a'r gymuned yn ymateb iddo, **dylid gofyn am gyngor gan yr awdurdod lleol** cyn gynted â phosib i atal trafferthion dieisiau wrth gât yr ysgol neu yn y cyfryngau.

Gall rhannu gwybodaeth fod yn arbennig o broblematig, yn yr ysgol ac yn y gymuned, os yw'n ymwneud â mwy na dwy set o rieni (h.y. pan fydd nifer o blant wedi niweidio a/neu gael eu niweidio).

↓

**Os yw'r wybodaeth yn cael ei rhannu'n ehangach ar y cyfryngau cymdeithasol a/neu mae'r cyfryngau lleol yn dangos diddordeb:**

Gallai fod angen i'r pennaeth neu'r Arweinydd Diogelu Dynodedig ymateb drwy gyfathrebu am y digwyddiad i gymuned yr ysgol, ac efallai y tu allan i'r ysgol. Meddyliwch sut y gallwch wneud hyn gan **warchod y plant perthnasol** a **chadw cyfrinachedd y rhieni ar yr un pryd**.

Dylid rhoi gwybod i'ch llywodraethwyr neu ymddiriedolwyr ysgol perthnasol (Cadeirydd a'r Llywodraethwr Diogelu) am y sefyllfa.


A4.

# Ystyried y risgiau ac ymatebion posib

Cyn cynnal cyfarfodydd cynllunio diogelwch ar gyfer pob un o'r plant perthnasol a'u rhieni, meddyliwch am y pethau fydd angen eu trafod a rhoi sylw iddynt.

## Beth allai'r risgiau parhaus fod?

Dylech ystyried y risgiau o fewn ac o gwmpas amgylchedd yr ysgol, i'r holl blant perthnasol, ac i eraill. Gallai hyn gynnwys y risgiau canlynol:




## A oes angen i'r ysgol reoli cyswllt rhwng y plant?

Bydd angen i'r cynllun diogelwch sicrhau bod y plentyn/plant a niweidiwyd yn teimlo mor ddiogel â phosib, ond heb ynysu'r plentyn/plant a niweidiodd oddi wrth weithgareddau positif: I wneud hyn, efallai y byddai'n well **cadw'r plant ar wahân** oddi wrth ei gilydd:

**Dylid holi barn y plentyn/plant a niweidiwyd:**

**Meddyliwch hefyd am y plentyn/plant a niweidiodd:**




Os oes angen cadw'r plant ar wahân, dylid galluogi'r plentyn/plant a niweidiwyd i ddilyn trefn diwrnod ysgol mor normal â phosib heb ofni dod i gysylltiad – gan gynnwys cyn ac ar ôl ysgol ac yn ystod yr egwyl – â'r rhai wnaeth eu niweidio.

Mae Adran **B5** yn egluro'r ystyriaethau ar gyfer rheoli cyswllt mewn sefyllfaoedd penodol.

## Pa drefniadau allai fod yn addas?

Meddyliwch ymlaen am y **trefniadau posib a allai fod yn addas i bob plentyn** gan ystyried **ffactorau diwylliannol** neu **anghenion dysgu** ychwanegol a allai fod yn berthnasol i'r plant.

Mae Adran **B6** yn rhestru ystod eang o drefniadau posib a allai fod yn briodol.

Cofiwch y bydd angen i unrhyw drefniadau gael eu **cytuno** â phob plentyn a'u rhiant/rhieni yn ystod y cyfarfodydd cynllunio diogelwch.

# A5. Cynnal cyfarfod cynllunio diogelwch i bob plentyn

Bydd angen cael cyfarfod ar wahân i bob un o'r plant oedd yn rhan o'r digwyddiad, a'u rhiant/rhieni. Fel arfer bydd yn briodol cynnal y cyfarfod(ydd) ar gyfer y plentyn/plant a niweidiwyd cyn y rhai ar gyfer y plentyn/plant a niweidiodd.

**Mynychu'r cyfarfod**

Bydd pob cyfarfod yn cael ei arwain gan Arweinydd Diogelu Dynodedig yr ysgol, gyda'r plentyn a'u rhiant/rhieni'n mynychu.

Gallai hefyd fod yn syniad da i athro/athrawes ddosbarth y plentyn, a gweithwyr proffesiynol eraill y plant (fel gweithiwr cymdeithasol) fod yn bresennol.

↓

**Cytuno ar gamau ar gyfer y cynllun diogelwch**

Defnyddiwch y wybodaeth a gasglwyd hyd yma – natur yr ymddygiad, am y plant, am y risgiau a sut i'w lliniaru – i benderfynu pa gamau sydd angen eu cymryd i gadw'r plentyn a phlant eraill yn yr ysgol yn ddiogel. Mae Adran **B6** yn cynnwys enghreifftiau o drefniadau posib.

Er y dylid annog y plentyn a'u rhieni i rannu eu barn, dylid dweud yn glir na fedrant benderfynu pa gamau sy'n briodol i'w cymryd gyda'r plentyn arall/plant eraill. Efallai y bydd angen i chi ddweud y bydd unrhyw gamau a gymerir yn gymesur ac mai nod yr ysgol yw cadw'r ddau blentyn/y plant i gyd yn yr ysgol os yw'n bosib.

Weithiau gallai fod yn briodol rhoi cyfyngiadau ar y plentyn/plant a niweidiodd gan atal mynediad at amgylchedd yr ysgol am gyfnod. Os cytunir ar hyn, dylid bod yn glir am ba hyd a sicrhau bod cynllun i'r plentyn/plant gael derbyn eu haddysg yn y cyfamser, ac ystyried sut y gellir eu hintegreiddio'n ôl i'r ysgol a'u haddysg arferol cyn gynted â phosib.

↓

**Cofnodi a chadarnhau'r camau y cytunir i'w cymryd**

Yn ystod y cyfarfod, bydd yr Arweinydd Diogelu Dynodedig yn cofnodi'r camau y cytunir i'w cymryd ar gyfer y plentyn, a mynd drwyddynt gyda'r plentyn a'u rhiant/rhieni. Gellir defnyddio'r templed cynllun diogelwch ar y dudalen nesaf i gofnodi'r camau hyn; mae e-fersiwn o'r templed ar gael ar ein gwefan.

Dylid **cadw'r cofnod yn syml** ac ni ddylai gynnwys unrhyw wybodaeth sensitif; cofiwch y bydd y cynllun diogelwch yn cael ei rannu â grŵp ehangach o staff mae'n debyg.

↓

**Cytuno ar y camau nesaf**

Dylid cytuno â'r rhiant/rhieni sut y byddant yn derbyn y cynllun diogelwch (drwy e-bost neu yn y post, er enghraifft), a phryd.

Eglurwch pryd fydd y cynllun diogelwch yn cael ei adolygu gan egluro wrth y plentyn a'u rhiant/rhieni sut i rannu pryderon os bydd unrhyw broblem yn codi rhwng yr adolygiadau.

## Templed cynllun diogelwch

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynllun diogelwch ar gyfer:** (enwau'r plant) | | | |
| **Cwblhawyd gan:** | | **Dyddiad:** | |
| **Yn bresennol:** (rhai a gyfrannodd i'r cynllun) | | | |

| **Pryder neu risg** | **Camau i'w cymryd** | **Cyfrifoldeb** | **Dyddiad adolygu** | **Gwybodaeth ychwanegol** (e.e. rhesymau dros gymryd y camau) |
|---|---|---|---|---|
| **Cyswllt rhwng y plant** | | | | |
| | | | | |
| **Trefniadau eraill yn yr ysgol** | | | | |
| | | | | |
| **Trefniadau eraill y tu allan i'r ysgol** | | | | |
| | | | | |

# A6. Creu, rhannu a gweithredu'r cynllun diogelwch

Yn dilyn digwyddiad o ymddygiad rhywiol niweidiol, achosir y straen mwyaf i'r plentyn/plant a niweidiwyd, y plentyn/plant a niweidiodd, a'u teuluoedd, yn ystod y diwrnodau a'r wythnosau cyntaf yn yr ysgol. Gall hefyd fod yn gryn straen i blant eraill a staff.

Gall cael cynllun diogelwch clir yn ei le helpu i leihau hyn.

**Creu'r cynllun diogelwch**

Yn dilyn y cyfarfodydd cynllunio diogelwch, bydd yr Arweinydd Diogelu Dynodedig yn cofnodi'r camau y cytunwyd arnynt mewn cynllun diogelwch. Gall y cynllun diogelwch fod yn un ddogfen neu'n gyfres o ddogfennau (e.e. un i bob un o'r plant oedd yn rhan o'r digwyddiad).

**Rhannu'r cynllun diogelwch gyda'r plant a'u rhieni**

Bydd y trefniadau ar gyfer hyn wedi eu cytuno yn y cyfarfodydd cynllunio diogelwch.

Am resymau cyfrinachedd, dylai bob plentyn a'u rhieni weld dim ond y rhan o'r cynllun sy'n berthnasol iddyn nhw.

Dylid sicrhau bod rhieni'r plant yn gwybod pa oedolion yn yr ysgol sy'n gwybod am yr ymddygiad rhywiol niweidiol ac wedi gweld y cynllun diogelwch.

**Rhannu'r cynllun diogelwch ag aelodau allweddol o staff yr ysgol, fel athrawes/athro dosbarth y plant a'r goruchwyliwr amser cinio, sy'n gyfrifol am gyfrannu iddo.**

**Ni ddylid** rhannu'r cynllun ag aelodau staff eraill.

Efallai y penderfynwyd y gall plentyn gymryd rhan yn ddiogel yn eu gweithgareddau a chlybiau allgyrsiol arferol yn yr ysgol. Os yw gweithgaredd neu glwb yn cael ei redeg gan ddarparwr allanol, bydd angen rhoi gwybod iddynt am y pryderon a'r risgiau. Os oes risgiau penodol o gwmpas amgylchedd y tai bach, er enghraifft, bydd angen i'r darparwr wybod hyn er mwyn sicrhau bod y cynllun diogelwch yn cael ei ddilyn.

Dylid hefyd rhannu'r rhannau perthnasol o'r cynllun ag unrhyw weithwyr proffesiynol allanol sy'n gyfrifol am gyfrannu iddo. (Mae hyn yn cynnwys staff allweddol mewn unrhyw ysgol neu sefydliad arall lle yr addysgir unrhyw un o'r plant am gyfnod).

**Gweithredu'r cynllun diogelwch**

**Pan fydd pob plentyn yn yr ysgol nesaf**, dylai'r Arweinydd Diogelu Dynodedig neu oedolyn dibynadwy'r plentyn eu cyfarch ar ddechrau'r diwrnod a'u hatgoffa o sut y dylai'r cynllun weithio iddyn nhw yn yr ysgol.

Dylid cael gair a'r ddau blentyn/holl blant oedd yn rhan o'r digwyddiad **tuag at ddiwedd eu diwrnod cyntaf** yn yr ysgol, cyn cysylltu â'u rhieni. Bydd llwyddiant y cynllun yn cyfrannu at hyder ac ymddiriedaeth pawb, felly mae rhoi adborth yn ddi-oed yn bwysig ac i'w groesawu.

**Ar ôl yr wythnos gyntaf neu fwy**, dylid cytuno â'r rhieni pryd y bydd cynrychiolydd ysgol yn cysylltu wedyn; byddwch yn realistig o ran pa mor aml y gall hyn ddigwydd. Dylid sicrhau bod pob plentyn, a'r rhieni, yn gwybod eu bod yn gallu cysylltu â staff penodol yn yr ysgol os oes angen.

# Adolygu'r cynllun diogelwch

A7.

Mae plant yn datblygu'n barhaus a gall eu hamgylchiadau hefyd newid, felly mae'n hanfodol adolygu'r cynllun diogelwch yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn gymesur i lefel y risg wedi'i hadnabod.

I ddechrau dylid gwirio'r cynllun **bob dydd**, yna'n **wythnosol**, ac yna'n **fisol** neu **bob tymor**; cyfrifoldeb yr Arweinydd Diogelu Dynodedig yw hyn er y gallent ddirprwyo'r dasg i staff perthnasol fel athrawes/athro dosbarth pob plentyn.

Dylid sicrhau bod pawb sy'n cyfrannu i'r cynllun diogelwch (gan gynnwys y plant a'u rhieni) yn gwybod beth yw'r **dyddiadau adolygu** wythnosol, misol neu dymhorol.

↓

Rhowch gyfle i **bob plentyn** roi gwybod i'w hoedolyn dibynadwy os yw pethau'n gweithio neu ddim yn gweithio iddyn nhw.

Efallai na fydd rhai pobl sy'n cyfrannu i'r cynllun diogelwch yn rhan o'r broses adolygu ffurfiol. Cofiwch sicrhau eu bod **yn rhoi adborth prydlon** ar gyfer pob adolygiad, gan roi eu persbectif gan dynnu sylw at unrhyw heriau.

Gan ddibynnu ar natur unrhyw broblemau a godir, gellir gwneud newidiadau i'r cynllun diogelwch **yn syth** neu eu hystyried yn yr adolygiad ffurfiol nesaf.

↓

**Os yw cynnydd wedi'i wneud ac mae'r ysgol yn gallu lleihau'r mesurau diogelwch:**

Dylid sicrhau bod y newidiadau'n digwydd **yn raddol**, a pharhau i **fonitro'r sefyllfa** yn agos.

Dywedwch wrth y **plentyn/plant a niweidiwyd** am y newidiadau ymlaen llaw a chadarnhau y byddant yn teimlo'n ddiogel.

Dylech gyfathrebu'r newidiadau i bawb arall fydd yn cael eu heffeithio ganddynt, gan gynnwys staff ysgol a phartneriaid allanol perthnasol.

↓

**Os nad yw cynnydd wedi'i wneud neu os yw'r ymddygiad yn gwaethygu:**

Bydd angen i chi adolygu'r cynllun i ystyried cyflwyno mwy o drefniadau a/neu gyfeirio'r ymddygiad at y gwasanaethau cymdeithasol plant neu'r heddlu, os na wnaed hyn yn barod.

Mae Adran **B8** yn rhoi mwy o gyngor ar leihau mesurau diogelwch a dileu'r cynllun diogelwch yn raddol, neu ar rannu gwybodaeth os yw un o'r plant yn symud yn barhaol i ysgol arall.

# Rhan B. Sut orau allwch chi helpu'r holl blant oedd yn rhan o'r digwyddiad?

B1.

# Deall yr ymddygiad rhywiol a ddigwyddodd

Bydd deall **beth yn union a ddigwyddodd** yn eich helpu chi fel tîm staff i:

- greu darlun o'ch pryderon
- meddwl am yr amgylchiadau pryd y gallai'r plentyn gyflwyno risg o ymddwyn yn rhywiol niweidiol eto (gan gynnwys drwy ddefnyddio technoleg)
- deall beth y gellir ei wneud i greu amgylchedd diogel i'r plant perthnasol, gan gynnwys rhai sydd efallai mewn perygl o fynd i ofid a dioddef niwed emosiynol, yn ogystal ag eraill yn y gymuned ysgol.

Drwy ddeall **deinameg y berthynas rhwng** y plentyn (neu bob plentyn) a niweidiodd a'r plentyn/plant a niweidiwyd, byddwch chi fel tîm staff yn gallu adnabod unrhyw **risg bosib** bellach i blant eraill yn well. Cwestiynau i'w hystyried am y plentyn/pob plentyn a niweidiodd:

- Ydyn nhw wedi niweidio'r un plentyn unwaith neu fwy nag unwaith?
- Ydyn nhw wedi niweidio mwy nag un plentyn (gan gynnwys plant heb fod yn eich ysgol)?
- Os ydyn nhw wedi niweidio mwy nag un plentyn, allwch chi adnabod unrhyw nodweddion sy'n debyg rhwng y plant a niweidiwyd? Ydy'r plentyn a niweidiodd yn eu hadnabod?
- Ble a phryd ddigwyddodd y niwed – a oes amseroedd a lleoliadau penodol?
- Beth oedd natur y niwed?
- Allwch chi adnabod unrhyw amgylchiadau neu ffactorau a allai gynyddu'r risg?

Os yw'r niwed wedi digwydd **ar-lein**, neu'n cael ei **gynorthwyo gan dechnoleg**, mae **Atodiad 2** yn cynnwys dolenni i wybodaeth ac adnoddau defnyddiol.

Os codwyd unrhyw **bryderon blaenorol** am y plentyn a niweidiodd, meddyliwch sut y gallai'r rhain eich helpu i ddeall beth sy'n digwydd iddynt a pha risgiau y gallent ei gyflwyno? A oes **patrwm o ymddygiad pryderus**?

Er enghraifft, os yw'r plentyn wedi dangos ymddygiad rhywiol amhriodol, problematig, camdriniol neu dreisgar yn y gorffennol, pa gamau a gymerwyd? A wnaethant dderbyn **neges glir** nad oedd eu hymddygiad yn dderbyniol? Os do, ystyriwch a oeddent wedi deall y neges hon a pham efallai nad oeddent wedi deall. Os ydych yn ffyddiog bod y plentyn wedi deall y neges, pam feddyliwch eu bod yn parhau i ymddwyn yn rhywiol niweidiol? A gafodd yr heddlu, y gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid neu'r gwasanaeth prawf eu cynnwys, ac os felly, wyddoch chi beth oedd y blaenoriaethau i'w cynnwys ac a wnaed unrhyw asesiadau?

**Pwynt myfyrio**

Gallai fod yn ddefnyddiol aros i feddwl am y **dylanwadau** ar eich dealltwriaeth o ymddygiad rhywiol y plentyn. A allai eich dealltwriaeth fod yn wahanol pe bai'r plentyn o wahanol ryw neu oed, er enghraifft, neu pe bai eu tarddiad ethnig yr un fath neu'n wahanol i'ch un chi?

# Siarad â'r plant oedd yn rhan o'r digwyddiad



Ar ôl unrhyw ddigwyddiad o ymddygiad rhywiol niweidiol, bydd angen i aelod o staff yr ysgol siarad â'r plant perthnasol: y plentyn/plant a niweidiodd, y plentyn/plant a niweidiwyd, ac unrhyw dystion. Mae'n debyg mai'r aelod staff gorau i gael y sgwrs yma yw rhywun sydd â pherthynas dda â'r plentyn a dylai hyn fod gyda chefnogaeth yr Arweinydd Diogelu Dynodedig bob tro. Dylai'r aelod o staff geisio darganfod gymaint â phosib am yr hyn a ddigwyddodd a sut y mae'r plant yn teimlo am y peth.

Os oedd aelod o staff yn dyst i'r ymddygiad, bydd angen ymateb i'r plentyn yn y fan a'r lle. Un awgrym ar gyfer hyn yw'r 'dull pedwar cam' a ddatblygwyd gan Toni Cavanagh-Johnson:[2]

1. **Stopio'r ymddygiad.** Newid y sefyllfa, stopio, tynnu sylw neu newid yr amgylchedd. Gwahanu'r plant, tynnu eu sylw at rywbeth arall, dweud wrthynt am stopio beth y maen nhw'n ei wneud.

2. **Diffinio'r ymddygiad.** Bod yn glir nad yw'r hyn y mae'r plentyn yn ei wneud yn dderbyniol. Disgrifio beth a welwch i'r plentyn. Y mwyaf penodol a chlir y gallwch fod am eu hymddygiad annerbyniol, y gorau fydd eu cyfle i newid neu ail-ddysgu eu hymddygiad.

3. **Datgan y rheolau.** Dweud wrth y plentyn sut yr ydych yn disgwyl iddynt ymddwyn, neu ailadrodd rheolau a glywsant yn flaenorol, er enghraifft:

   - *"Y rheol ydy..."*
   - *"We Rydyn ni'n disgwyl i bawb barchu preifatrwydd y naill a'r llall, gan gynnwys peidio â chyffwrdd ein gilydd ar y genitalia..."*

   Byddwch yn glir ond peidiwch â phregethu.

4. **Gorfodi'r rheolau.** I blant iau, gallwch ailgyfeirio neu dynnu sylw'r plentyn at ymddygiad mwy priodol. Dylech orffen y digwyddiad ar nodyn positif a chanmol y plentyn am ymddwyn fel yr awgrymwch.

2 Cavanagh-Johnson, T. (2015) *Understanding Children's Sexual Behaviors – What's Natural and Healthy.* Holyoke, MA: Neari Press.

## B2.1 Paratoi am y sgyrsiau

Wrth baratoi i siarad â phob plentyn yn unigol, meddyliwch sut y byddwch yn cael y sgyrsiau hyn ac a fydd unrhyw blentyn/blant yn wynebu rhwystrau wrth gyfathrebu â chi.

Mae nifer o resymau pam y gallai'r plant ei chael yn anodd siarad â chi am y digwyddiad.

| Gallai **plentyn a niweidiwyd**, er enghraifft: | Gallai **plentyn a niweidiodd**, er enghraifft: |
|---|---|
| • teimlo **embaras** neu **gywilydd** ar ôl eu profiad | • teimlo **embaras** neu **gywilydd** o'u hymddygiad |
| • teimlo'n **gyfrifol** am y niwed | • ofni beth fydd yn digwydd (cosb gan yr ysgol neu eu rhieni, a/neu os bydd yr heddlu a gweithwyr cymdeithasol yn cael eu galw) os ydynt yn **derbyn cyfrifoldeb** am eu hymddygiad |
| • ofni na fydd **neb yn eu coelio** os ydynt yn dweud | |
| • teimlo **dan fygythiad** neu **dan ormes** gan y plentyn wnaeth eu niweidio | |
| • ofni **ymateb oedolion** – gallai'r plentyn ofni colli rheolaeth ar beth sy'n digwydd nesaf, neu ofni codi cywilydd ar eu teulu neu gymuned | |
| • ofni canlyniadau eraill dweud beth a ddigwyddodd, fel **cael eu dieithrio** a/neu **fwlio** gan eu cyfoedion, difetha eu **henw da** neu orfod **symud i ysgol arall** | • ofni canlyniadau eraill derbyn cyfrifoldeb, fel cael eu **dieithrio** a/neu **ddial arnynt** gan eu cyfoedion, difetha eu **henw/statws** neu orfod **symud i ysgol arall** |
| • efallai na fydd ganddynt yr **iaith** neu'r **capasiti** i gyfathrebu'n llafar, neu ddim yn gwybod sut i ddweud | • efallai na fydd ganddynt yr **iaith** neu'r **capasiti** i gyfathrebu'n llafar, neu ddim yn gwybod sut i siarad am y peth |
| • **peidio â chydnabod eu profiad fel un camdriniol** – gall hyn fod yn broblem os yw'r plentyn yn meddwl "mae'n rhan o fywyd ysgol" neu "mae pethau'n waeth i blant eraill". | • **peidio â chydnabod eu hymddygiad fel bod yn gamdriniol** – gall hyn fod yn broblem os yw'r plentyn yn meddwl "mae'n rhan o fywyd ysgol" neu "mae plant eraill yn gwneud pethau gwaeth". |
| | Gallai plentyn ei chael yn arbennig o anodd siarad am eu hymddygiad os cawsant eu cam-drin yn rhywiol eu hunain. |

Gall rhai plant wynebu rhwystrau ychwanegol ar sail eu hoed, dosbarth cymdeithasol, diwylliant a chred, cefndir ethnig, rhywedd, tueddiad rhywiol, hunaniaeth/mynegiant rhywedd neu anabledd – neu gyfuniad o'r rhain. Gall gweithwyr proffesiynol ragdybio pethau amdanynt – er enghraifft bod bachgen wedi niweidio'n rhywiol oherwydd 'bechgyn ydy bechgyn' yn lle ystyried y posibilrwydd bod yr ymddygiad yn awgrymu ei fod ef ei hun wedi cael ei gam-drin.

Byddwch yn barod i'r plant – y rhai a niweidiwyd neu a niweidiodd – beidio â dal eich llygad neu gydnabod popeth a ddywedwch pan fyddwch yn cyfarfod. Maen nhw'n debygol o deimlo straen, embaras neu gywilydd sylweddol ond peidiwch â dehongli eu hymarweddiad i olygu nad ydyn nhw'n gwrando.

**Pwynt myfyrio**

Sut ydych chi'n teimlo am gael sgyrsiau am ymddygiad rhywiol niweidiol? Oes yna rywbeth a allai fod yn anodd i chi? Mae Pennod 1 yn ein canllaw **Cyfathrebu gyda Phlant** yn rhoi cyngor i'ch helpu.

Gan ddibynnu ar natur yr ymddygiad rhywiol, gallai'r Arweinydd Diogelu Dynodedig gyfeirio at y gwasanaethau cymdeithasol plant a/neu'r heddlu. Os yw hyn yn digwydd, rhaid i chi gofio y gallai'r heddlu gyfweld y plant yn ffurfiol am yr hyn a ddigwyddodd. Mae ein canllaw **Cyfathrebu gyda Phlant** cyn cynnwys cyngor ar gael sgyrsiau gyda phlant yn dilyn cam-drin/niwed rhywiol gyda Phennod 6 yn canolbwyntio ar gwestiynau y gallwch ac na ddylech eu gofyn.

## B2.2 Siarad gyda phlentyn a niweidiwyd

Gofynnwch **sut y mae'r plentyn yn teimlo**. Gallent fod yn ofnus, teimlo embaras neu fod angen gair o gysur.

Dywedwch wrthynt **nad ydynt ar fai** am yr hyn a ddigwyddodd iddynt.

**Dylech dderbyn a dilysu** beth a ddywedant wrthych. Er enghraifft gallech ddweud *"Dw i'n clywed be ti'n ei ddweud."*

Gofynnwch beth yw **dymuniadau'r plentyn**, beth allwch ei wneud i'w helpu i deimlo'n ddiogel.

Eglurwch eich **camau nesaf –** gan aros yn **agored, gonest a chlir** am y camau y bydd angen i chi eu cymryd, a bod yn glir am ba wybodaeth y byddwch yn ei rhannu gyda phwy. Bydd hyn ym mholisi eich ysgol. Efallai y bydd angen i chi fod yn ofalus rhwng parchu cyfrinachedd y plentyn a chwrdd â'ch cyfrifoldebau diogelu.

Dywedwch **eich bod ar gael iddyn nhw siarad â chi** pan fyddwch ar gael, a gyda phwy arall i siarad os na fyddwch ar gael.

**Dylech gofnodi**, cyn gynted â phosib, beth a ddywedodd y plentyn **yn eu geiriau eu hunain**; peidiwch â cheisio dehongli eu geiriau. Mae hefyd yn ddefnyddiol nodi sut oedd y plentyn yn ymddangos, iaith eu corff a'u cyfathrebu dieiriau.

Er ei bod yn bwysig ystyried dymuniadau a theimladau'r plentyn wrth benderfynu pa gamau i'w cymryd, bydd angen **uwchgyfeirio rhai digwyddiadau** beth bynnag yw dymuniadau'r plentyn. Rhaid i chi siarad â'ch Arweinydd Diogelu Dynodedig os oes gennych unrhyw bryderon.

**Pwynt myfyrio**

Pa rwystrau fydd plant efallai'n eu hwynebu i siarad gyda chi am eu profiadau? Sut allech chi eu helpu i oresgyn rhai o'r rhwystrau hyn? Mae Penodau 2, 4 a 5 yn ein canllaw **Cyfathrebu gyda Phlant** eyn egluro'r rhwystrau y gallai plant eu hwynebu, gan roi cyngor manwl am sut i gal sgwrs.

## B2.3 Siarad gyda phlentyn a niweidiodd

Dylech fod yn glir **beth a welsoch**, **clywsoch neu a ddywedwyd wrthych.**

*"Mae Sameera wedi dweud wrthyf dy fod wedi ei gwthio yn erbyn y wal yn y tŷ bach a chyffwrdd ei bronnau o dan ei dillad."*

Byddwch yn glir **nad yw'r ymddygiad yma'n dderbyniol**, gan egluro pam.

*"Nid yw'r ymddygiad yma'n dderbyniol ac mae cyffwrdd unrhyw un yn rhywiol heb eu caniatâd yn ymosodiad rhywiol."*

Byddwch yn glir y gallai fod **canlyniadau** i ymddygiad rhywiol niweidiol.

*"Mae ymosodiad rhywiol yn drosedd a allai gael ei ryportio i'r heddlu."*

Rhowch gyfle i'r plentyn **siarad gyda chi am eu hymddygiad**.

*"Allwch chi fy helpu i ddeall beth a ddigwyddodd?"*

Agorwch y drws iddyn nhw **siarad gyda chi am unrhyw beth sy'n eu poeni**.

*"Dw i yma os oes unrhyw beth yr hoffet ti siarad efo fi amdano."*

Eglurwch eich **camau nesaf** yn glir.

*"Bydd angen i mi siarad efo di rieni am hyn. Oes yna unrhyw beth yr hoffet i mi ei wybod cyn i mi wneud hynny?"*

Gallai'r plentyn **wadu** neu geisio **lleihau** eu hymddygiad; mae rhywfaint o wadu'n gyffredin. Mae'r plentyn yn debygol o fod yn profi amrediad o emosiynau, gan gynnwys ofn a chywilydd, ac mae'n bwysig ystyried y rhesymau posib am eu hymddygiad. Gallech fod eisiau gofyn cwestiynau fel:

*"Dwi wedi sylwi dy fod yn gwneud X. Mae gan rai pobl wahanol eiriau am hyn – beth wyt ti'n ei alw?"*

*"Dwi wedi sylwi dy fod yn gwneud X. Wyt ti wedi gweld hyn yn rhywle ysgwn i?"*

*"Dwi wedi sylwi dy fod yn gwneud X. Wyt ti isio dweud wrthyf am hynny?"*

*"Dwi wedi sylwi dy fod yn gwneud X. Wyt ti wedi clywed am hyn yn rhywle ysgwn i?"*

*"Dw i wedi cael gwybod dy fod wedi [disgrifio'r ymddygiad a ryportiwyd]. "Fedri di fy helpu i ddeall beth a ddigwyddodd?"*

A allai'r plentyn fod yn, neu wedi cael, eu cam-drin yn rhywiol eu hunain? Os credwch eu bod, gallwch ddefnyddio ein **templed Arwyddion a Dangosyddion** i greu darlun o'ch pryderon.

## B2.4 Siarad gyda phlant i ddweud y byddwch yn siarad â'u rhieni

Bydd rhai plant yn ofnus o wybod y byddwch yn siarad â'u rhieni am niwed rhywiol neu ymddygiad rhywiol. Bydd y syniad yn annealladwy i rai plant – yn enwedig os yw eu teulu'n dilyn crefydd neu ddiwylliant sy'n gwahardd rhyw y tu allan i briodas neu'n ystyried bod cyswllt rhywiol yn dod â chywilydd ar y teulu. Meddyliwch yn ofalus am sut i ddelio â'r sefyllfa a siaradwch â'r plentyn am unrhyw beth sy'n eu poeni.

Os credwch fod unrhyw bosibilrwydd y bydd **risg ychwanegol i'r plentyn oddi wrth eu teulu eu hunain** os dywedwch wrth eu rhieni eu bod wedi cael niwed rhywiol neu wedi niweidio rhywun arall yn rhywiol, rhaid i chi ystyried cyfeirio'r mater at y gwasanaethau plant a/neu'r heddlu.

## B2.5 Siarad gyda phlant am gyfathrebu a'r cyfryngau cymdeithasol

Wrth siarad ag unrhyw un o'r plant, dylech atgoffa bod angen disgresiwn – gan gynnwys peidio â siarad ag eraill, hyd yn oed os oes pwysau arnynt i wneud, a pheidio â rhannu gwybodaeth ar y cyfryngau cymdeithasol.

Dylid egluro beth i'w wneud os bydd eraill yn gofyn iddynt am wybodaeth neu os ydynt yn dod yn ymwybodol o unrhyw negeseuon di-fudd ar y cyfryngau cymdeithasol.

Cofiwch gadarnhau eu bod yn gwybod sut i flocio a ryportio negeseuon neu gynnwys wedi'i rannu a allai fod yn niweidiol.





B3.

# Siarad gyda rhieni'r plant

Bydd angen i rieni'r holl blant oedd yn rhan o'r digwyddiad wybod beth a ddigwyddodd, a gallai'r sgyrsiau hyn deimlo'n anodd. Fodd bynnag, fel addysgwr, byddwch yn brofiadol yn cael sgyrsiau anodd ac mae'n debyg y byddwch wedi datblygu nifer o strategaethau ar gyfer delio â nhw. Mae'r adran yma'n gwneud awgrymiadau a allai fod yn ddefnyddiol i chi mewn gwahanol sefyllfaoedd.

## B3.1 Siarad â rhiant/rhieni plentyn a niweidiwyd

Pan fyddwch yn darganfod neu'n amau bod plentyn wedi profi ymddygiad rhywiol niweidiol, mae'n bwysig i'w rhiant/rhieni gael gwybod **sut fydd yr ysgol yn cefnogi'r plentyn**.

Bydd peth o'r cymorth hwn yn dibynnu ar y cyd-destun (e.e. a ddigwyddodd yr ymddygiad y tu mewn neu'r tu allan i'r ysgol), ond mae rhai camau cyffredinol y gallwch eu cymryd i gefnogi'r plentyn a'u rhiant/rhieni.

Bydd y rhiant/rhieni'n gwerthfawrogi cael gwybod **sut y mae eu plentyn yn ymdopi** yn yr ysgol, a chael newyddion positif – er enghraifft os yw'r plentyn wedi cyfrannu'n dda mewn gwers neu weithgaredd – yn ogystal â chael gwybod sut yr ydych yn delio ag unrhyw ofid i'r plentyn.

Dylid sicrhau'r rhiant/rhieni y bydd yr ysgol yn cefnogi eu plentyn drwy ei **system fugeiliol**, yn lle cymryd camau disgyblu os yw'r plentyn yn dangos unrhyw ymddygiad problematig oherwydd eu profiad. Rhowch wybod iddynt y gallai trawma'r niwed rhywiol effeithio ar **gof gweithio** eu plentyn, gan efallai'n effeithio'n sylweddol ar ddysgu a wreiddiwyd yn flaenorol. A dywedwch wrthynt y byddwch yn datblygu **cynllun adfer dysgu** i gefnogi'r plentyn.

Mae ein canllaw **Cefnogi Rhieni a Gofalwyr** yn cynnwys gwybodaeth am anghenion rhieni gyda phlant sydd wedi cael niwed rhywiol, a sut y gallwch helpu i ateb yr anghenion hyn.

## B3.2 Siarad â rhiant/rhieni plentyn a niweidiodd

Mae peidio â barnu'n hanfodol i roi ymateb cefnogol i riant/rhieni plentyn a iweidiodd blentyn arall, yn enwedig os ydynt efallai'n **teimlo mai nhw sydd ar fai** am ymddygiad y plentyn. Os ydyn nhw wedi profi cam-drin rhywiol eu hunain, gallai eu hymateb i glywed beth a wnaeth eu plentyn fod yn emosiynol iawn a gallent fod yn flin gyda'u plentyn neu'r plentyn a niweidiwyd.

I ennill dealltwriaeth well o **anghenion y rhiant/rhieni**, gallai helpu i ofyn cwestiynau fel "Gyda beth ydych chi angen help?" neu "Beth sy'n eich poeni fwyaf ar y funud?"

Yn ôl ymchwil, mae plentyn yn fwy tebygol o roi sylw i'w hymddygiad rhywiol niweidiol os yw eu rhiant/rhieni'n eu **dal yn atebol** am eu hymddygiad ond yn **parhau i'w cefnogi**. Gall hyn deimlo fel cydbwysedd anodd ei daro, felly gallai'r rhiant/rhieni werthfawrogi cyngor ar sut orau i gynnig y gefnogaeth yma.

Ar ddechrau'r cyfarfod, dylech **gytuno ar ba derminoleg a ddefnyddiwch**. Mae teuluoedd yn defnyddio llwyth o wahanol eiriau i gyfeirio at rannau sensitif o'r corff, felly bydd cytuno ar y derminoleg yn helpu i normaleiddio eich trafodaethau a helpu i hyrwyddo sgwrs fwy cyffyrddus.

> *"Efallai y byddwch wedi dysgu geiriau penodol am y genitalia i'ch mab/merch, ond mi fydda i'n cyfeirio at y genitalia gyda thermau fel 'pidyn' neu 'fagina'."*

### *Eglurwch beth a wnaeth eu plentyn a beth fydd yn digwydd nesaf*

Byddwch yn **glir a ffeithiol** am y wybodaeth a rannwch. Rhowch gymaint o wybodaeth ag y teimlwch sy'n briodol i'r rhiant/rhieni, heb roi sefyllfa'r plentyn/plant a niweidiwyd yn y fantol. Defnyddiwch iaith glir gan dderbyn y gall siarad am ymddygiad rhywiol niweidiol fod yn anodd iawn i'r rhiant/rhieni ei glywed. Wrth ddisgrifio **beth a ryportiwyd/sylwyd arno**, cadwch at y ffeithiau gan osgoi barnu.

> *"Dywedodd ferch yn nosbarth eich mab ei fod wedi gafael yn ei bronnau dros ei chrys ysgol pan oedden nhw yn yr iard amser egwyl. Dywedodd ei fod wedi dal i law yno am tua phum eiliad, er iddi ddweud wrtho am dynnu ei law a cheisio dianc."*

Gallai'r rhiant/rhieni **gael trafferth credu** beth a ddywedwch wrthynt – am ei fod mor bell o'r hyn y maen nhw'n ei wybod am eu plentyn – neu'n **methu â derbyn y niwed a wnaed**. Peidiwch â chynhyrfu a **rhowch amser** iddyn nhw brosesu'r wybodaeth; gallai fod yn ddefnyddiol cael nifer o sgyrsiau â nhw, oherwydd gallai fod yn anodd iddynt brosesu unrhyw beth a ddywedwch ar ôl sioc y wybodaeth gychwynnol.

Byddwch yn barod i'r rhiant/rhieni ddangos gwahanol emosiynol, gan gynnwys **gwadu** neu **ddicter**. Ceisiwch eu sicrhau y byddwch yn gweithio gyda nhw i **gadw eu plentyn yn ddiogel**, ac y gall **addysg eu plentyn barhau** fel arfer lle bo'n bosib.

### *Trafodwch y rhesymau am yr ymddygiad*

Mae'n bwysig dysgu gymaint ag y gallwch am **brofiadau byw'r** plentyn, a gallai eu rhiant/rhieni ddarparu gwybodaeth werthfawr. Gyda'ch gilydd, trafodwch a oes unrhyw **risg i'r plentyn** yn y teulu neu yn y gymuned.

> *"Oes gennych chi unrhyw bryderon amdano/amdani/amdanyn nhw'n ymddwyn yn rhywiol? Efallai nad oeddech yn siŵr neu ddim yn gwybod gyda phwy i siarad am y peth?"*

> *"Dw i'n deall y gallai hyn fod yn anodd i chi ei glywed, a tybed allwch chi feddwl am unrhyw reswm pam eu bod wedi ymddwyn fel hyn?"*

**Pwynt myfyrio**

Mae gan blant sy'n ymddwyn yn rhywiol niweidiol drafferthion eraill yn eu bywydau'n aml, fel profiad o gam-drin corfforol neu rywiol neu esgeulustod, bod yn dyst i drais yn y cartref, diffyg dynion fel modelau rôl positif, neu riant/rhieni sydd â phroblemau iechyd meddwl neu gyffuriau. Mae'n bwysig ystyried beth allai profiadau'r plentyn fod ac a oes angen cyfeirio at y gwasanaethau cymdeithasol plant.

Efallai y bydd angen i chi drafod bywyd cartref y plentyn yn fanwl (er enghraifft os oes gennych bryderon bod y rhiant/rhieni'n rhoi mynediad digyfyngiad i'r we), i sefydlu a oes unrhyw beth yn y cartref wedi cyfrannu i'w hymddygiad.

#### Amgylchedd ffisegol y cartref

Dylech gadarnhau pa **oedolion a phlant eraill sy'n byw yng nghartref y plentyn**, ac ystyried a allai fod risg i'r plentyn o gam-drin rhywiol, corfforol, esgeulustod, cam-drin yn y cartref, problem gyffuriau rhieni, ayyb.

### Amgylchedd ar-lein y cartref

Mae gan y rhan fwyaf o blant fynediad at ddyfais er mwyn gallu cysylltu i'r we. Ac mae llawer o'r cyfathrebu rhwng plant yn digwydd ar-lein, drwy'r **cyfryngau cymdeithasol** a llwyfannau eraill. I sefydlu pa mor ddiogel yw'r plentyn yn eu hamgylchedd ar-lein, treuliwch amser yn deall **defnydd y plentyn o dechnoleg**.

- Pa **ddyfeisiau** sydd ar gael i'r plentyn? A oes unrhyw **osodiadau rhiant**, a pha mor aml ydyn nhw'n cael eu gwirio?
- Ydy rhiant/rhieni'r plentyn yn gwirio defnydd eu plentyn o'r we? Ydyn nhw'n trafod proffiliau a chynnwys cyfryngau cymdeithasol eu plentyn? Ydy'r rhiant/rhieni wedi cymryd camau i **reoli defnydd y plentyn o dechnoleg?** Ydyn nhw wedi sylwi ar unrhyw newid yn y plentyn **ar ôl cyfnodau hir ar y we?**
- **Faint o amser** y mae'r plentyn yn ei dreulio ar eu dyfeisiau? Ydy'r rhiant/rhieni'n **goruchwylio neu fonitro** hyn o gwbl?
- A oes unrhyw bryderon bod defnydd y plentyn o dechnoleg yn **eu cyflwyno i risg** (o gael niwed ar-lein neu o gymryd rhan mewn ymddygiad a allai achosi niwed i eraill)?
- **Ydy'r plentyn yn poeni** am eu hymddygiad ar-lein?
- Wyddoch chi a yw eich plentyn yn gwylio **pornograffi**? P'un ai oedd pornograffi'n rhan o ymddygiad rhywiol niweidiol y plentyn neu beidio, ceisiwch ddeall pa ddylanwad y mae pornograffi wedi neu yn ei gael arnynt.

> **Pwynt myfyrio**
>
> Mae llawer o blant yn gwylio pornograffi ond mae oedolion yn aml yn gyndyn o ofyn am hyn. Dylid trafod hyn gyda rhiant/rhieni'r plentyn/plant. A oes ganddynt unrhyw heriau penodol i siarad â'u plentyn amdanynt yn gwylio pornograffi? Ydyn nhw'n holi am y peth dim ond pan fydd rheswm penodol dros wneud hynny? Ydyn nhw'n teimlo eu bod yn gallu trafod y pwnc hwn yn ystyrlon â'u plentyn? Gan bwy y gallent dderbyn cefnogaeth i gael y sgyrsiau hyn? Rhestrir rhai ffynonellau gwybodaeth a chymorth yn **Atodiad 2**.

## *Trafod y camau nesaf*

Wrth ddweud wrth riant/rhieni'r plentyn beth fydd yn digwydd nesaf, dylid **canolbwyntio ar ymddygiad y plentyn** - nid y plentyn - fel y pryder. Bydd defnyddio **iaith glir difeio'n** lleihau'r tebygolrwydd o gael ymateb amddiffynnol gan y rhiant/rhieni:

> *"Pan fydd digwyddiad o ymddygiad rhywiol niweidiol rhwng disgyblion/ myfyrwyr, mae gan yr ysgol gyfrifoldeb i asesu difrifoldeb yr ymddygiad."*

Dylid egluro'r **canlyniadau posib –** gallent amrywio o egluro nad yw ymddygiad y plentyn yn briodol, bod angen dilyn gweithdrefnau disgyblu'r ysgol neu gyfeirio'r mater at y gwasanaethau cymdeithasol plant a/neu'r heddlu.

A chofiwch drafod:

- sut fydd yr ysgol yn **cefnogi'r plentyn –** er enghraifft drwy gyfeirio at asiantaeth arbenigol, dyrannu mentor iddynt yn yr ysgol, neu weithio ar eu haddysgu am berthnasoedd iach a chyffwrdd yn ddiogel. Rhowch wybod i rieni'r plentyn pwy yn yr ysgol fydd yn gyfrifol am bob dim.
- sut y gallwch **helpu i gefnogi'r rhiant/rhieni eu hunain –** mae hyn yn debygol o gynnwys rhoi rhif ffôn cyswllt iddynt fel bod ganddynt gyswllt uniongyrchol ag aelod o staff yr ysgol (fel arfer yr Arweinydd Diogelu Dynodedig, ond nid bob tro) sy'n gwybod am fanylion y sefyllfa, a dweud wrthynt ble i ddod o hyd i gefnogaeth eu hunain; ewch i **Atodiad 2**.

## B3.3 Lleihau'r risg o sgyrsiau di-fudd a gwrthdaro rhwng rhieni

Pan fydd plentyn wedi niweidio plentyn neu blant eraill yn rhywiol, mae'r ddwy set o rieni'n debygol o brofi ystod o emosiynau. Gallai problemau godi yn yr ysgol ac yn y gymuned os ydynt yn rhannu gwybodaeth (anghywir efallai) am y digwyddiad neu ymateb yr ysgol. I leihau pa mor debygol y mae hyn o ddigwydd, dylid:

- Sicrhau, yn eich cyfarfodydd cychwynnol â'r rhieni, bod gan **bawb wybodaeth glir a chywir** am yr hyn a ddigwyddodd.
- Cytuno â'r rhieni **sut fyddwch yn rhannu gwybodaeth gyda nhw** o hyn ymlaen. Ar y pwynt hwn, dylid ystyried a oes unrhyw rieni wedi **cael trafferth deall neu gofio'r** wybodaeth yr ydych wedi'i rhannu; gall ofn neu ddryswch o ddiffyg dealltwriaeth achosi dicter. Cofiwch rannu **newyddion positif** gyda'r rhieni, fel enghreifftiau o ymddygiad positif gan eu plentyn.
- **Osgoi defnyddio iaith sy'n lleihau ymddygiad neu'n beio** *unrhyw un* o'r plant. Gallai gymryd amser i sefydlu ffeithiau'r hyn a ddigwyddodd ac mae'n bwysig **peidio â barnu** unrhyw un o'r plant ar unrhyw adeg, ond gan gydnabod teimladau'r rhieni i gyd.
- Gofynnwch i'r rhieni a ydyn nhw'n teimlo y gallech **wneud unrhyw beth arall**. Os ydyn nhw'n meddwl bod dim byd yn digwydd, gallent benderfynu delio â'r sefyllfa eu hunain. Mae'n bwysig atgoffa'r rhieni o'r hyn a wnaethoch a bod yn glir iawn beth fyddwch yn ei wneud nesaf.
- Gofynnwch i'r rhieni **barchu cyfrinachedd** yr holl blant oedd yn rhan o'r digwyddiad

## B3.4 Siarad â rhieni nad yw Saesneg yn iaith gyntaf iddynt

Cyn gynted â phosib, dylid sefydlu pa iaith y mae'n well gan y rhieni (a'r plentyn, yng nghwmni eu rhieni) gyfathrebu ynddi, a threfnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gyfer hynny.

- Os ydyn nhw'n gyndyn o ddefnyddio cyfieithydd ar y pryd, ceisiwch gadarnhau pam; gallai genethod/merched fod yn anghyffyrddus yn siarad â dyn sy'n gyfieithydd ar y pryd (a bechgyn os cawsant eu niweidio'n rhywiol gan ddynion), a gallai'r rhieni (yn enwedig os ydyn nhw'n byw mewn cymuned ethnig/ddiwylliannol fach) boeni am gyfrinachedd.
- Dylid osgoi cael aelodau o'r teulu, cymdogion neu ffrindiau i gyfieithu neu siarad ar ran y plentyn neu'r rhieni.
- Os defnyddir cyfieithydd ar y pryd, siaradwch â nhw am y posibilrwydd na fydd gan iaith y rhieni efallai eiriau am niwed/cam-drin rhywiol. Dylech eu paratoi ar gyfer natur sensitif y sgwrs sydd i'w chynnal.
- Ar gyfer cyfathrebu'n anffurfiol â'r rhieni, nid yw Google Translate yn berffaith ond mae'n gweithio'n eithaf.

Os ydych yn cyfathrebu â'r rhieni yn Saesneg, defnyddiwch iaith syml – os nad oes gan y rhieni lawer o Saesneg, maen nhw'n fwy tebygol o ddeall byrdwn eich neges os siaradwch yn araf gan osgoi slang, idiomau a chyfatebiaeth.

Cofiwch ofyn bob tro a ydyn nhw wedi deall yr hyn a ddywedoch. Cofiwch y gallai rhywun ateb "Do" i hyn ond heb ddeall yr hyn a ddywedoch, oherwydd nad ydyn nhw eisiau edrych yn dwp neu'n ofni canlyniadau negyddol. Gofynnwch iddyn nhw ail-adrodd yr hyn a ddywedoch - bydd hyn yn deall a ydyn nhw wedi deall neu beidio.

B4.

# Asesu'r risg o niwed pellach

Wrth ystyried y ffactorau risg isod, gallai'r Arweinydd Diogelu Dynodedig ddefnyddio partneriaid allanol i wneud asesiad risg mwy ffurfiol.

## Pa mor debygol ydy'r ymddygiad o ailddigwydd?

Wrth feddwl am ba mor debygol y mae'r plentyn a niweidiodd o ymddwyn yn rhywiol niweidiol eto, ystyriwch y cwestiynau canlynol:

- Beth yw **amgylchiadau'r** plentyn? (Er enghraifft, a gredir neu a feddylir bod risg o niwed iddynt gan eraill yn y cartref, y gymuned neu yn yr ysgol? A oes unrhyw ddylanwad negyddol neu wrthgymdeithasol yn effeithio ar eu hymddygiad? Neu a oes ganddynt amgylchedd cartref sefydlog a chariadus a dylanwadau cymdeithasol positif?) Mae plant gyda ffactorau mwy gwarchodol yn llai tebygol o ymddwyn yn niweidiol.
- Am **ba mor hir a pha mor aml** y mae'r ymddygiad rhywiol niweidiol wedi bod yn digwydd? Gall digwyddiadau parhaus o ymddygiad niweidiol (yn erbyn yr un plentyn neu nifer o unigolion) awgrymu bod ymddygiad rhywiol niweidiol pellach yn fwy tebygol.
- **Faint o blant** sydd wedi eu niweidio? Faint oedd eu hoed, a pha ryw(iau) oedden nhw? Gallai fod gan y plentyn batrwm ymddygiad hirbarhaus a gallent fod yn ceisio cwrdd â'r anghenion hyn mewn ffyrdd afiach neu heb ymaddasu.
- Ydy'r ymddygiad rhywiol niweidiol wedi digwydd yng nghyd-destun **cyfeillgarwch** neu ydy'r plentyn wedi niweidio un neu fwy o blant nad oedd ganddynt **unrhyw gysylltiad** â nhw o'r blaen?

Os daeth unrhyw ran o'r wybodaeth yma i'r golwg wrth siarad â'r plentyn, efallai y byddwch eisiau ail-ddarllen y nodiadau yn Adran A1 i ystyried a ddylid ail-gategoreiddio eu hymddygiad rhywiol.

Er ei bod yn llai cyffredin i blentyn sydd wedi ymddwyn yn rhywiol niweidiol dargedu **staff ysgol** yn ogystal â phlant eraill, mae hyn yn digwydd; ystyriwch faint o risg sydd bod hyn yn digwydd yng nghyd-destun beth a wyddoch am ymddygiad y plentyn a nodweddion y plant a niweidiwyd.

## Ble a phryd allai'r risg fod yn fwy?

A oes unrhyw batrwm hysbys o ran amseru a/neu leoliad yr ymddygiad niweidiol, a allai fod yn ddefnyddiol i'w hystyried wrth ddatblygu cynllun diogelwch?

Os yw plentyn wedi niweidio'n rhywiol yn nhoiledau'r ysgol, er enghraifft, gallai fod angen ystyried trefniadau tŷ bach arbennig ar eu cyfer. Neu os oes pryderon y gallai fod risg oddi wrth eraill iddynt o ganlyniad i'w hymddygiad rhywiol niweidiol, efallai y bydd angen ystyried trefniadau i'w cludo i ac o'r ysgol.

- Os oes **amseroedd risg** – mewn gwersi penodol fel Addysg Gorfforol, wrth fynd o wers i wers, amser egwyl, cyn neu ar ôl ysgol – pam fod yr amseroedd hyn yn cyflwyno risg? Ai mater o ddiffyg goruchwyliaeth ydy o? Ydy'r plentyn yn fwy tebygol o gael eu sbarduno mewn rhai llefydd, yn ystod rhai gweithgareddau, neu o gwmpas plant penodol?
- Os oes **llefydd sy'n cyflwyno risg** – rhai ystafelloedd dosbarth, ardaloedd tawel, tai bach yr ysgol, yr iard chwarae, ardaloedd allan o'r golwg, cynteddau, rhywle oddi ar y safle, neu ar-lein – pa fesurau y gellir eu cyflwyno i leihau risg yn y llefydd hyn?

Gallai plentyn sydd wedi ymddwyn yn rhywiol niweidiol ac mewn ffyrdd pryderus eraill fod yn cael trafferth **rheoli eu hemosiynau**. Mae monitro eu stâd emosiynol yn hanfodol, yn enwedig o gwmpas **amseroedd anodd/straen posib**, fel cyn arholiadau, wrth rannu canlyniadau arholiadau, cwblhau aseiniadau, neu wrth newid dosbarth/grŵp blwyddyn.

## A oes unrhyw gyfyngiadau ar y plentyn?

Os yw'r heddlu'n ymchwilio i ymddygiad rhywiol niweidiol honedig gan blentyn, gallent roi amodau mechnïaeth yn cyfyngu ar beth all y plentyn ei wneud a chyswllt gyda phobl eraill. Dylech sicrhau eich bod yn deall y rhain, neu unrhyw orchmynion cyfreithiol eraill.

Mae Adran **B7** yn rhoi cyngor ar reoli digwyddiadau pan fydd yr heddlu ar ganol gwneud ymchwiliad.





B5.

# Rheoli cyswllt rhwng y plant

Wrth lunio'r cynllun diogelwch, bydd angen i'r tîm staff (dan arweiniad yr Arweinydd Diogelu Dynodedig) sicrhau bod y plentyn/plant a niweidiwyd yn teimlo mor ddiogel â phosib, ond heb ynysu'r plentyn/plant a niweidiodd oddi wrth weithgareddau positif. Gallai fod angen cymryd camau fel na fydd y plant yn dod i gysylltiad.

## Goruchwylio

Efallai y byddwch eisiau cyflwyno lefel uwch o oruchwyliaeth, i ddechrau o leiaf, ar y plentyn a niweidiodd. Bydd hyn yn sicrhau diogelwch y plant oedd yn rhan o'r digwyddiad a rhoi amser i asesu sut y mae'r plentyn yn ymateb i wybod bod eu hymddygiad yn annerbyniol. I benderfynu a oes angen mwy o oruchwyliaeth, gofynnwch i chi eich hun:

- A oes gan y plentyn a niweidiodd y **ddisgyblaeth fewnol i reoli eu hymddygiad** mewn gwahanol sefyllfaoedd? Meddyliwch a oes unrhyw dystiolaeth y gallent ddangos ymddygiad diatal neu gymhellol.
- A oes rhai **adegau o'r diwrnod ysgol** pan fydd y risg yn uwch neu'n is?
- Pa oruchwyliaeth a monitro a allai fod ei angen yn ystod yr **adegau anffurfiol** fel amser egwyl neu wrth fynd o wers i wers?

Ond cofiwch y dylai'r plentyn fod yn gallu dilyn gymaint o drefn arferol y diwrnod ysgol â phosib, er efallai dan oruchwyliaeth. Ceisiwch sicrhau eu bod dal yn gallu ymgysylltu â'u cyfoedion ac mewn gweithgareddau allgyrsiol, dan oruchwyliaeth fwy cudd ar yr adegau hyn (drwy i'r aelod o staff gadw'r plentyn o fewn golwg o bell, er enghraifft).

## Rheoli cyswllt oddi ar y saflet

Mae'n debygol y bydd hefyd angen i chi feddwl am gyswllt a diogelwch yn ystod tripiau ysgol oddi ar y safle, neu ar gludiant ysgol. A oes unrhyw bryderon penodol o gwmpas cludiant ysgol? Os credir bod ymddygiad rhywiol niweidiol wedi digwydd ar fws yr ysgol, er enghraifft, dylid ystyried a fydd yn bosib gwneud trefniadau eraill i gludo'r plentyn a niweidiodd i ac o'r ysgol.

## Rheoli cyswllt mewn mathau penodol o ysgol

**Ysgolion preswyl**

Os yw'r plant oedd yn rhan o'r ymddygiad rhywiol niweidiol gyda'i gilydd y tu allan i oriau ysgol fel arfer, gall y camau i'w cymryd i reoli cyswllt rhyngddynt gynnwys:

- adnabod aelodau o dîm staff preswyl yr ysgol a fyddai ar gael fel bod gan bob plentyn oedolyn dibynadwy yn ystod yr oriau preswyl
- ystyried a oes angen mwy o oruchwyliaeth, gan gynnwys defnyddio staff nos ar ddihun, gyda'r nos ac ar y penwythnos
- adnabod trefniadau cysgu eraill, lle bo angen, i greu pellter rhwng y plant
- sefydlu trefniadau ar gyfer cael cawod, newid a mynd i'r tŷ bach (gan gynnwys yn ystod y nos)
- cynllunio i drefnu mynediad teg i'r ddau blentyn/yr holl blant at weithgareddau yn ystod oriau cymdeithasu, yn enwedig os nad oes llawer o ddewis o weithgareddau gyda'r nos ac ar benwythnos

- gwneud trefniadau pan fydd y plant yn teithio i/o'u cartrefi ar ddiwedd/dechrau'r wythnos neu dymor - os ydyn nhw'n defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, er enghraifft, a ellir dweud wrthynt am eistedd mewn rhannau penodol o'r bws neu gerbydau gwahanol ar y trên?

### Ysgolion bach

Gall fod yn arbennig o heriol cadw plant ar wahân os yw amgylchedd yr ysgol yn fach a/neu os oes ond un fynedfa i'r ysgol, ond mae pethau y gallwch eu gwneud er hynny – **amrywio'r** trefniadau i'r plentyn a niweidiodd ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol, ac ar gyfnodau egwyl, os yw hyn yn gymesur ac yn gymorth i bawb.

Meddyliwch a fydda'i bosib sicrhau eu diogelwch a'u lles drwy gadw'r ddau blentyn **yn yr un ystafell ddosbarth:**

- Gallai fod yn bosib gwneud hyn drwy symud desgiau neu gadeiriau fel nad yw'r plant yn eistedd wrth ymyl ei gilydd, a thrwy gynyddu goruchwyliaeth yn y dosbarth – er na fydd hyn efallai'n bosib oherwydd staffio.
- Os na ellir sicrhau diogelwch y ddau blentyn yn yr un dosbarth, meddyliwch am symud y plentyn a niweidiodd i ddosbarth arall (h.y. dosbarth grŵp blwyddyn arall) dros dro. Bydd angen i chi egluro i rieni'r plentyn – ac i'r plentyn ei hun lle y bo'n briodol – bod hyn yn cyd-fynd â'r canllawiau statudol *Cadw Dysgwyr yn Ddiogel* ac nad yw'n awgrymu euogrwydd na bai. Dylid adolygu'r sefyllfa'n gyson.
- Os yw lefel y risg barhaus i blentyn arall yn yr ysgol mor sylweddol na ellir ei reoli'n ddiogel yn amgylchedd yr ysgol, efallai y bydd angen i chi ystyried trefniant addysg arall i'r plentyn a niweidiodd.

.





# B6. Trefniadau i ystyried eu cynnwys yn y cynllun diogelwch

Mae'r adran yma'n rhestru ystod eang o drefniadau y gellir eu hystyried i sicrhau diogelwch plant ar ôl digwyddiad o ymddygiad rhywiol niweidiol. Ond cofiwch y dylai unrhyw ymyriadau fod yn **gymesur a chyn lleied â phosib –** dylai fod gan bob plentyn gymaint o hyblygrwydd a rheolaeth ar eu bywyd ysgol ag y mae diogelwch yn ei ganiatáu.

## B6.1 Trefniadau yn ac o gwmpas yr ysgol

Gallai'r trefniadau a awgrymir isod fod yn ddefnyddiol i unrhyw un neu'r holl blant perthnasol. Y nod yw creu mesurau diogelwch ychwanegol a 'phellter' rhwng y plentyn/plant a niweidiwyd a'r plentyn/plant a niweidiodd, hyd nes y gellir lleihau neu addasu'r trefniadau o fewn cyfnod i'w gytuno.

Dylid eu hystyried yng nghyd-destun yr ymddygiad rhywiol niweidiodd a ddigwyddodd. Os penderfynir mabwysiadu'r trefniadau, dylid cytuno ar amserlen adolygu glir a meddwl yn ofalus am eu lleihau ar sail y cynnydd sy'n cael ei wneud.

### *a) Ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol*

- Dylid cyfarch rhieni a phlant wrth fynedfa wedi'i chytuno sy'n wahanol i bob plentyn – neu os oes ond un fynedfa iawn i'r ysgol, ar wahanol amser i bob plentyn.
- Dylid cytuno ar drefniadau cludiant i blant a allai fod yn rhannu bws ysgol neu sydd fel arfer yn cerdded yr un llwybr i'r ysgol – a ellir gwneud hyn gyda bydi neu ffrind? A fyddai cynllun eistedd ar y bws yn gweithio? Gofynnwch i'r plentyn a niweidiwyd beth a fyddai'n helpu fwyaf, a chofio efallai na fydd llawer o oruchwyliaeth ar gludiant ysgol a chyhoeddus.
- Gofynnwch a allai'r rhieni neu aelodau eraill o'r teulu gludo'r plentyn a niweidiodd i ac o'r ysgol am sbel.
- Cytunwch ble fydd y ddau blentyn/plant os oes 'amser rhydd' ar ddechrau neu ddiwedd y diwrnod ysgol, neu os ydyn nhw'n cyrraedd yr ysgol yn gynt na'r disgwyl.
- Trefnwch i'r plentyn wneud tasg neu weithgaredd, efallai ag oedolyn dibynadwy/'bydi', os ydyn nhw'n cyrraedd yn gynnar.
- Dylid cael sgwrs holi lles â'r plentyn yn rheolaidd, yn enwedig ar ddiwedd diwrnodau cyntaf y cynllun diogelwch. Dylech sicrhau eu bod yn gwybod pryd a ble. Dylai'r 'sgyrsiau holi lles' fod yn breifat, yn enwedig os yw'r plentyn yn teimlo eu bod yn cael eu gor-oruchwylio neu'n denu gormod o sylw gan blant eraill

### *b) Yn ystod y diwrnod ysgol*

- Trefnwch rywle diogel ar wahân (y dosbarth drws nesaf, y dderbynfa neu ardal cymorth dysgu) i bob plentyn fynd iddo os ydyn nhw wedi cynhyrfu neu'n teimlo'r straen, gan ystyried goruchwyliaeth ar yr adegau hyn.
- Byddwch yn barod i'r plentyn gael adegau o fynd yn ofidus a mynd yn emosiynol afreolus; meddyliwch am strategaethau tawelu i'r plentyn eu defnyddio ar yr adegau hyn.

- Trefnwch i'r plentyn gael eitem/tegan 'cysur'/synhwyraidd neu flwch tawelu (wedi'i baratoi ymlaen llaw), neu wrando ar fiwsig wrth astudio ar eu pen eu hunain.

- Cytunwch sut y gallai'r plentyn adael gwers heb dynnu sylw os ydynt yn dechrau cynhyrfu; er enghraifft gallai'r plentyn adael cerdyn ar eu desg/desg yr athro neu athrawes, neu ofyn 'cwestiwn cod' i ddangos bod angen amser allan arnynt. Byddwch yn glir ble y gallai'r plentyn fynd ar yr adegau hyn, ac a oes angen goruchwyliaeth. Gallai plant hŷn fynd i ardal gymdeithasu, y gampfa neu'r llyfrgell. Meddyliwch sut i ddelio â'r adegau pan fydd y plentyn yn gadael eu gwersi, er mwyn rhoi sylw diymdroi i'r mater ac fel nad oes angen i'r plentyn adael eu gwersi'n aml.

- Rhowch wybod i'r plentyn pwy yn yr ysgol sy'n gwybod am y digwyddiad (e.e. athro/athrawes ddosbarth, pennaeth blwyddyn, staff diogelu) a gyda phwy i siarad yn yr ysgol os oes angen cymorth gan oedolyn arnyn

### *c) Os yw'r plant yn parhau i rannu'r un gofod dysgu*

- Trefnwch gynllun eistedd ac eglurwch y rheswm i'r ddau blentyn/y plant i gyd. Efallai y bydd y plentyn a niweidiwyd eisiau eistedd wrth ymyl ffenest, y drws neu ffrind.

- Trefnwch gynllun eistedd ar gyfer gwasanaeth y bore, yn y ffreutur, ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol ayyb.

- Byddwch yn fwy gwyliadwrus pan fydd plant yn symud at waith grŵp/parau, neu'n mynd i nôl cyfarpar o'u treis. Er enghraifft, efallai y bydd angen ail-drefnu treis os ydynt yn rhy agos.

- Trefnwch i bob plentyn gael 'bydi' i wneud iddynt deimlo'n rhan o weithgareddau a gwaith grŵp.

- Adolygwch y trefniadau cotiau – ydy pegiau'r plant yn rhy agos at ei gilydd?

- Trefnwch oruchwyliaeth ychwanegol neu ddyrannu blociau/ciwbicls pan fydd y plant yn mynd i'r tŷ bach neu'n newid ar gyfer Ymarfer Corff.

- Ystyriwch oruchwyliaeth ychwanegol a monitro unrhyw ofod dysgu ar-lein, yn enwedig os yw'r plant yn gallu cyfathrebu â'i gilydd.

### *d) Os nad yw'r plant yn rhannu'r un gofod dysgu*

- Lle bo'n bosib, dylid symud y plentyn a niweidiodd i ddosbarth arall yn eu grŵp blwyddyn am sbel.

- Os nad yw hyn yn bosib, gallai fod yn briodol eu symud i ddosbarth arall am sbel. Fel arfer byddai'n well i hyn fod mewn dosbarth blwyddyn yn uwch.

- Dylid parhau'r cyswllt rhwng y plentyn a'r athro/athrawes ddosbarth wreiddiol, a ddylai wirio eu cynnydd addysgol yn ystod y cyfnod hwn. Bydd hyn yn helpu'r plentyn i ailintegreiddio yn eu dosbarth eu hunain a'u helpu i gadw ar y blaen â'u dysgu.

### *e) Yn ystod adegau llai ffurfiol*

- Ystyriwch sut y gallai'r plentyn gael gafael ar eitemau personol a gedwir yn rhywle arall yn yr ysgol (offeryn ar gyfer gwers gerddoriaeth, er enghraifft).

- Trefnwch dasgau penodol i'r plentyn yn ystod cinio a chyfnodau egwyl.

- Trefnwch gynllun ar gyfer cyfnodau egwyl dan do pan fydd y tywydd yn ddrwg.

- Gofynnwch i fentoriaid cyfoed gefnogi'r plentyn yn ystod cinio a chyfnodau egwyl.
- Trefnwch i staff goruchwylio sgwrsio â'r plentyn yn ystod cyfnodau egwyl.
- Os oes unrhyw ardaloedd ar safle'r ysgol lle nad oes llawer o oruchwyliaeth (gan gynnwys CCTV) dylid dweud wrth un/y ddau/y plant i gyd gadw draw o'r ardaloedd hyn drwy gydol/rhan o'r diwrnod ysgol, yn ystod cyfnodau egwyl er enghraifft.
- Dylid sicrhau bod staff goruchwylio amser cinio ychwanegol yn gwybod ble na ddylai'r plentyn fynd

### *f) Y cwricwlwm a'r amserlen*

- Trefnwch i oedolyn dibynadwy pob plentyn adolygu eu hamserlen gyda'r plentyn, pob dydd i ddechrau ac yna unwaith yr wythnos, i adnabod unrhyw bwnc/gwers a allai greu problem. Efallai y bydd angen i'r oedolyn dibynadwy ragweld hyn, rhag ofn i'r plentyn anghofio neu os na fydd yn ymwybodol o gynnwys y wers sydd i ddod.
- Sicrhewch fod athrawon pwnc yn ymwybodol o'r problemau ac yn gallu paratoi cyn y wers. Mae hyn yn arbennig o wir os yw'r ddau blentyn/y plant i gyd yn aros yn yr un dosbarth, neu'n debygol o gael trafferth â chynnwys y wers (e.e. gwers am ryw a pherthnasoedd).
- Dylid ystyried trefniadau ychwanegol os oes angen athro/athrawes gyflenwi mewn pwnc fydd efallai'n creu problem. Ydy o'n bosib i athro/athrawes fwy profiadol gymryd y wers?
- Efallai y bydd angen i'r cynllun diogelwch gyfeirio at gwricwlwm ABCh/ARhPh, a beth sydd i'w roi yn ei le i helpu'r plant i dderbyn y gwersi hyn. Mae'r Adran Addysg wedi cynhyrchu **modiwlau ARhPh hyfforddiant athrawon** sydd â chynnwys ar ddiogelu a sicrhau bod y staff iawn ar gael i gefnogi pan fydd pynciau sensitif yn cael eu haddysgu. A ellid trefnu i'r plentyn a niweidiodd dderbyn cymorth ychwanegol drwy sesiynau un-i-un ar gyfer peth o'r cynnwys ABGI?
- Meddyliwch am y trefniadau ar gyfer unrhyw ddigwyddiad ysgol ar y gorwel, fel trip addysgol, ymweliad, cyflwyno gwobrau neu berfformiad.

### *g) Dyfeisiau symudol a chyfryngau cymdeithasol*

Os yw dyfeisiau symudol neu gyfryngau cymdeithasol wedi cyfrannu at yr ymddygiad rhywiol niweidiol, neu pe gallent waethygu'r sefyllfa, gallai fod angen gofyn i'r plentyn roi a chasglu eu ffôn symudol gan aelod penodedig o staff ar ddechrau ac ar ddiwedd y dydd.

- Ceisiwch dawelu meddwl rhiant/rhieni'r plentyn y gellir cyfleu unrhyw negeseuon brys drwy swyddfa'r ysgol. Ystyriwch rannu rhif symudol yr ysgol ar gyfer adegau pan fydd swyddfa'r ysgol yn brysur.
- Anogwch y rhiant/rhieni i drafod yn rheolaidd â'r plentyn i fonitro eu defnydd o ddyfeisiau, ac adrodd unrhyw harasio neu gam-drin

Ar y llaw arall, gallai fod yn ddefnyddiol pe bai gan y plentyn fynediad at ffôn symudol yn ystod y diwrnod ysgol (er mwyn gallu derbyn cymorth cyson gan eu rhieni, er enghraifft). Byddwch yn ymwybodol o ganlyniadau posib hyn: os oes digwyddiad yn yr ysgol, er enghraifft, gallai'r plentyn ffonio gartref cyn dweud wrthych. Meddyliwch sut y gallech ddelio â hyn – gan gynnwys drwy gefnogi teulu a ffrindiau a allai gael trafferth delio â derbyn gwybodaeth heb gynhyrfu.

## B6.2 Dulliau cymorth eraill

- A fyddai'n briodol cyfeirio at wasanaeth cwnsela'r ysgol?
- A fyddai'n helpu pe bai swyddog cyswllt heddlu'r ysgol yn siarad yn unigol â'r plant perthnasol? Byddai angen rhoi gwybod i'r rhieni ymlaen llaw a rhoi trefniadau cymorth yn eu lle i blant ag anghenion ychwanegol i ddeall yn iawn beth sy'n cael ei ddweud.
- Os yw'r plentyn a niweidiwyd yn cytuno i hyn, a fyddai'n briodol i'r oedolyn dibynadwy 'holi' un o ffrindiau agos y plentyn sy'n ymwybodol o'u sefyllfa?

## B6.3 Awgrymiadau i'w rhannu â'r rhieni

Gallai rhiant/rhieni'r plentyn hefyd werthfawrogi gwybod sut i helpu eu plentyn drwy:

- eu hatgoffa o ba staff yn yr ysgol sy'n gwybod am eu sefyllfa a pha rai y gallent fynd atynt i siarad neu os ydynt yn teimlo'n ypsét
- creu 'blwch tawelu' ar eu cyfer (e.e. eitemau i'w cadw yn eu poced a'u tynnu allan i gael cysur)
- adolygu'r gwersi yn amserlen y plentyn yr wythnos nesaf ac asesu a fyddai unrhyw un yn anodd iddynt
- holi a oes unrhyw amser o'r dydd neu weithgareddau sy'n arbennig o anodd iddynt (fel amser cinio neu wersi ymarfer corff).





# B7. Rheoli digwyddiadau ochr yn ochr ag ymchwiliad heddlu

Mae heriau penodol o ran rheoli digwyddiad o ymddygiad rhywiol niweidiol os yw'r heddlu'n ymchwilio i'r mater. Gallai'r wybodaeth gan yr heddlu yn ystod ymchwiliad fod yn brin, ac mae llawer o ymchwiliadau heddlu'n dod i ben heb gamau pellach.

Gallai'r mater fod yn gymhleth os digwyddodd yr ymddygiad oddi ar dir yr ysgol; efallai na fydd rhieni'r plentyn a niweidiodd yn deall pam fod yr ysgol yn ymwneud â'r mater.

Mae penderfyniadau da'n dibynnu ar ymateb sensitif gan yr ysgol i wahanol ffactorau amgylcheddol a chymdeithasol ond gan hefyd ddilyn y canllawiau statudol ac ymarfer gorau.

Mae'r adran yma'n cyflwyno egwyddorion arweiniol i'w hystyried pan fydd ymchwiliad ar fynd gan yr heddlu.

## Lansio ymchwiliad heddlu

Pan fydd yr heddlu'n dechrau ymchwilio, mae'r camau cychwynnol (cyfweliad cyntaf yr heddlu) fel arfer yn digwydd yn brydlon. Bydd beth sy'n digwydd nesaf yn dibynnu ar y rhanbarth – nid oes yr un achos yr un fath.

Argymhellwn eich bod yn cydweithredu'n agos â'ch partneriaid gan gynnwys Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol, swyddog cyswllt heddlu, gwasanaethau cymdeithasol plant, gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid, tîm cyfathrebu'r awdurdod lleol, a gwasanaethau ymddygiad a chymorth plant perthnasol eraill yn eich awdurdod. Mae hefyd yn bwysig diweddaru eich Llywodraethwr/Ymddiriedolwr Diogelu.

Dechreuwch ystyried sut, yn ystod yr ymchwiliad, y gallai'r ysgol:

- darparu addysg i'r ddau blentyn/yr holl blant mor ddiogel â phosib gan ystyried effeithiau tymor byr a hir yr ymchwiliad
- cadw pethau'n gyfrinachol gan herio unrhyw sibrydion neu gam-wybodaeth (ewch i Adran **A3**)
- tawelu meddyliau a rhoi cefnogaeth i'r ddau deulu/yr holl deuluoedd.

Ystyried hefyd sut y gallai canlyniad yr ymchwiliad effeithio ar y ddau blentyn ac ar gymuned ehangach yr ysgol.

## Yn ystod ymchwiliad heddlu

Tra bod ymchwiliad yr heddlu ar fynd, dylech:

- sicrhau eich bod yn glir beth yw unrhyw gyfyngiadau gan yr heddlu ar y plentyn
- cyfathrebu â'r swyddog/tîm ymchwilio drwy eich swyddog cyswllt heddlu, a chynnal y cyswllt hwn hyd yn oed os yw'r swyddog ymchwilio'n parhau i roi dim ond ychydig o wybodaeth
- bod â phwynt cyswllt clir ar gyfer rhiant/rhieni'r plentyn drwy gydol yr ymchwiliad, ac egluro iddynt eich bod yn gweithio o fewn paramedrau protocol/polisi'r ysgol (ewch i **Atodiad 1**) a'r canllawiau statudol *Cadw Dysgwyr yn Ddiogel.*

Dylid gweithredu'r **cynllun diogelwch** unwaith fydd yr heddlu wedi gwneud yr ymholiadau cychwynnol, a chofio gwahodd y swyddog ymchwilio fel un o'r partneriaid i'r cyfarfod cynllunio diogelwch ar gyfer y plentyn.

Os yw mynediad y plentyn at safle'r ysgol wedi'i gyfyngu, dylid sicrhau bod eu cynllun i dderbyn addysg wedi'i gefnogi gan sgyrsiau rheolaidd ag aelod o staff sy'n ddibynadwy i'r plentyn; bydd hyn yn eu helpu i integreiddio'n ôl i'r ysgol wedyn.

Bydd angen i chi ystyried pa sgôp sydd gennych i adolygu a lleihau trefniadau'r cynllun diogelwch pan fydd yr ymchwiliad yn parhau

## Os daw ymchwiliad yr heddlu i ben gyda phenderfyniad i beidio â chymryd camau pellach

Os yw'r heddlu'n penderfynu peidio ag ymchwilio i ymddygiad rhywiol niweidiol, neu os nad yw eu hymchwiliad yn arwain at erlyn neu ddedfryd allan-o'r-llys, mae'n bwysig cofio **nad yw hyn yn golygu na ddigwyddodd yr ymddygiad** – dim ond bod yr heddlu neu Wasanaeth Erlyn y Goron yn meddwl na fyddai erlyn o fudd i'r cyhoedd neu na fyddai'n bosib profi trosedd 'y tu hwnt i amheuaeth resymol'.

Er hynny mae angen i chi ddeall yr hyn a ddigwyddodd a chymryd camau i leihau'r risg a gyflwynir gan y plentyn a niweidiodd.

Gall yr Arweinydd Diogelu Dynodedig ofyn i'r heddlu rannu'r wybodaeth a gasglwyd yn ystod eu hymchwiliad; mae gan yr heddlu ddyletswydd i wneud hyn os bydd yn osgoi niwed diangen i unrhyw un o'r plant perthnasol.

## Os yw plentyn yn cael ei erlyn am ymddygiad rhywiol niweidiol

Mae gan yr heddlu nifer o opsiynau posib i ddod ag ymchwiliad i ben, gan gynnwys rhoi **rhybudd** neu **gyfeirio at y gwasanaethau troseddwyr ifanc**. Os defnyddir unrhyw un o'r rhain, dylai'r Arweinydd Diogelu Dynodedig ymgynghori â'r heddlu, gwasanaethau cymdeithasol plant a'r gwasanaethau troseddwyr ifanc i gael cyngor ar reoli risgiau posib a gyflwynir gan y plentyn. Er enghraifft, dylech ofyn a yw'r plentyn wedi derbyn asesiad risg ffurfiol (fel asesiad AIM3) fel rhan o'r broses; os do, gofynnwch am unrhyw argymhellion a wnaed.

Os yw ymddygiad y plentyn wedi cyrraedd y trothwy ar gyfer **erlyniad troseddol**, dylai'r Arweinydd Diogelu Dynodedig sefydlu a yw hyn yn effeithio ar ddealltwriaeth yr ysgol o risg y plentyn yn yr ysgol. **Dylid galluogi'r plentyn i gwblhau eu haddysg bob amser, p'un ai yw hynny yn eu hysgol arferol neu drwy drefniadau eraill**.

# B8. Lleihau a dod â threfniadau'r cynllun diogelwch i ben yn raddol

Un pwrpas y cynllun diogelwch yw rhoi cefnogaeth i blentyn a niweidiodd er mwyn gallu dychwelyd i drefn arferol yr ysgol. Dylid adolygu cynnydd y plentyn yn rheolaidd i sefydlu a oes tystiolaeth bod y risg wedi lleihau a sut y mae'r plentyn yn gweithio i atal unrhyw ddigwyddiadau pellach o ymddygiad rhywiol niweidiol; gallai hyn gynnwys adolygu ydyn nhw'n cydymffurfio â'r cynllun diogelwch, ac adolygu ymgysylltiad y plentyn a'u rhieni ag unrhyw ymyriadau.

Dylai'r adolygiad gael ei arwain gan yr Arweinydd Diogelu Dynodedig a chynnwys staff ysgol perthnasol eraill.

Mae hefyd yn bwysig monitro lles a chynnydd y plentyn/plant a niweidiwyd.

## Goruchwyliaeth

Os yw'r cynllun diogelwch wedi rhoi un neu fwy o'r plant dan lefel uwch o oruchwyliaeth, dylid adolygu hyn yn barhaus.

Fel arfer mae goruchwyliaeth uwch yn anodd ei gynnal am gyfnodau hir ac yn aml yn effeithio ar allu'r plentyn i gael cyswllt cymdeithasol iach arferol â chyfoedion, neu ddatblygu perthynas iach ag eraill. Mae hefyd fel arfer yn rhoi'r cyfrifoldeb am reoli ymddygiad y plentyn ar oedolion, nid ar y plentyn ei hun – felly unwaith y codir yr oruchwyliaeth maes o law, nad oes gan y plentyn unrhyw brofiad o gymryd cyfrifoldeb dros/rheoli eu hymddygiad eu hunain ac felly mae eu hymddygiad yn debygol o barhau i gyflwyno risg.

## Dod â'r cynllun i ben

Mae'n bwysig cofio bod plant yn gallu newid eu hymddygiad – a gyda chymorth ac arweiniad, gall y risg o ymddygiad rhywiol niweidiol pellach leihau. Fel y nodwn uchod, dylid adolygu unrhyw gynllun diogelwch yn rheolaidd i ystyried pa fesurau ychwanegol sydd eu hangen i reoli'r risgiau a pha gymorth sydd angen ei roi i'r plant perthnasol.

Wrth asesu a yw'r risg wedi lleihau ddigon i ddod â'r cynllun diogelwch i ben:

- dylid adolygu cofnodion diogelu'r ysgol
- dylid ymgynghori â rhiant/rhieni'r plentyn/plant a niweidiodd, ac unrhyw weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda'r plentyn/plant – gan gynnwys eu hathrawes/athro dosbarth, gweithiwr/gweithwyr cymdeithasol, a gweithiwr/gweithwyr troseddwyr ifanc, er enghraifft
- dylid hefyd ymgynghori â'r plentyn/plant a niweidiwyd i gadarnhau eu barn a'u dymuniadau.

Dylid ystyried y cwestiynau canlynol yng nghyswllt pob plentyn a niweidiwyd:

- Ydyn nhw'n parhau i ddangos unrhyw agweddau/ymddygiad tuag at y plentyn/plant a niweidiwyd?
- Beth y maen nhw'n ei ddweud am eu hymddygiad blaenorol? Ydyn nhw'n deall pam ei fod yn niweidiol? Mae llawer o blant yn gwadu neu leihau eu hymddygiad rhywiol niweidiol, fel arfer allan o gywilydd neu ofni cael eu barnu. Ni ddylid parhau'n ddiangen gyda'r cynllun diogelwch oherwydd bod y plentyn yn gwadu neu'n lleihau eu hymddygiad, ar yr amod nad oes pryderon eraill am eu hymddygiad presennol â'u hymgysylltiad â'r cynllun.

- Sut y maen nhw wedi ymateb i'r cynllun diogelwch? Ydyn nhw wedi cydymffurfio ac ymateb i gyfarwyddiadau?

- Ydyn nhw wedi cymryd rhan mewn ymyriad i roi sylw i'w hymddygiad niweidiol? A oes tystiolaeth eu bod yn defnyddio sgiliau allweddol/gwybodaeth a ddysgwyd yn ystod yr ymyriad? Ydy'r rhiant/rhieni wedi cefnogi'r ymyriad?

- Beth wyddoch chi am eu hymddygiad presennol yn yr ysgol, cartref a'r gymuned? A oes tystiolaeth o ymddygiad risg a allai godi pryderon y gallai ymddygiad rhywiol niweidiol pellach ddigwydd?

- A oes unrhyw bryderon yn eu hamgylchedd (cartref neu gymuned) a allai fod yn tanseilio eu hymgysylltiad â'r cynllun diogelwch a'r ymyriad?

- Beth yw barn y plentyn/plant a niweidiwyd?

- A fyddai dod â'r cynllun diogelwch i ben yn creu unrhyw risg i'r plentyn a niweidiwyd? Er enghraifft, a allai plant eraill eu targedu?

Os oes unrhyw bryderon parhaus am unrhyw un o'r pethau hyn, efallai na fydd yn briodol dod â'r cynllun diogelwch i ben yn llwyr – ond efallai y gallai gael ei gynnal gyda mesurau ychwanegol sy'n gymesur i lefel y risg?

Os asesir nad oes angen y cynllun diogelwch mwyach, gallai fod yn briodol i'r plentyn/plant a niweidiwyd dreialu mynychu'r ysgol heb gynllun diogelwch am sbel, ac adolygu'r sefyllfa ar ôl hynny. Bydd wedyn yn bosib monitro eu cynnydd a'u hymddygiad. Yn ystod y cyfnod adolygu, gellir egluro disgwyliadau'r ysgol – a'r canlyniadau posib (e.e. ailgyflwyno'r cynllun diogelwch) os oes ymddygiad pellach sy'n destun pryder yn y dyfodol – i'r plentyn a'u rhieni.

## Os yw'r plentyn/plant yn symud i ysgol newydd pan fydd y cynllun diogelwch dal yn 'fyw'

Pan fydd plentyn sy'n destun cynllun diogelwch yn symud i ysgol newydd (oherwydd eu bod yn pontio o'r ysgol gynradd i'r uwchradd, neu'n symud tŷ) cyn dod â'r cynllun i ben, dylid rhannu gwybodaeth ddiogelu berthnasol a'r cynllun diogelwch gyda'r ysgol newydd i sicrhau bod unrhyw risgiau'n cael eu rheoli. Fel arfer bydd eich Arweinydd Diogelu Dynodedig yn trefnu cyfarfod gyda'u cyfatebol yn yr ysgol newydd.

Cofiwch y gallai plentyn a niweidiwyd bontio i ysgol y mae plentyn a niweidiodd hefyd yn mynd iddi neu a fydd yn mynd iddi yn y dyfodol. Dylai'r ysgol newydd adolygu'r cynllun diogelwch gydag unrhyw asiantaethau perthnasol eraill cyn i'r plentyn ddechrau yn yr ysgol.

# B9. Cefnogi plant ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau

Mae'n bwysig bod yn effro i nodweddion cyffredin plant sydd ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau (AAA) sy'n cyflwyno **risg uwch o niwed rhywiol** iddynt. Gallai'r rhain gynnwys:

- dibynnu ar eraill i ofalu am eu glendid personol
- cyrraedd cerrig milltir datblygiadol ar wahanol adegau i'w cyfoedion
- bod ag anhawster lleferydd, iaith neu gyfathrebu sy'n effeithio ar fynegi eu hanghenion
- dim yn deall bod yr hyn y maen nhw'n ei brofi'n rhywiol niweidiol

Gall y problemau hyn fod yn waeth os yw **rhieni neu weithwyr proffesiynol:**

- yn ystyried bod gan blentyn gyda AAA lefel uchel o warchodaeth a chymorth ac felly gyda risg is o gael niwed rhywiol
- yn priodoli ymddygiad gwaethygol neu heriol i gyflwr y plentyn heb ystyried y gallai niwed rhywiol fod yn digwydd
- yn tynnu'r plentyn allan o wersi ABCh/ARhPh fel eu bod yn colli allan ar arbenigedd yr athrawes/athro, sgyrsiau, trafodaeth grŵp a gweithgareddau dosbarth sydd i gyd yn gallu ategu dysgu.

## Siarad â phlentyn gyda AAA

Gall fod angen cymorth ychwanegol ar blant gyda AAA sy'n cael niwed rhywiol, neu sy'n dangos ymddygiad rhywiol niweidiol. Wrth siarad â nhw, defnyddiwch ymyriadau cyfarwydd ac a ddefnyddir yn arferol i gynorthwyo eu dysgu. Gallai'r rhain gynnwys lleihau cynnwrf amgylcheddol a defnyddio:

- iaith symlach
- oedolyn ychwanegol neu fentor dysgu i roi cymorth
- iaith arwyddion neu Makaton
- cardiau atgoffa gyda symbolau, ffotograffau neu luniau
- straeon cymdeithasol
- dyfeisiau a gynorthwyir gan dechnoleg.

Dylech sicrhau eich bod yn deall yn glir sut y gallai anghenion y plentyn effeithio ar eu dealltwriaeth, cyfathrebu ac ymgysylltiad. Efallai y bydd angen i chi ddefnyddio cydweithiwr arbenigol (fel eu mentor dysgu neu Gydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig eich ysgol) i hwyluso sgyrsiau.

**Cyn** eich cyfarfod cyntaf â'r plentyn am yr ymddygiad rhywiol niweidiol:

- Dylid adnabod y prif negeseuon yr ydych eisiau eu cyfleu a chynllunio sut i sicrhau bod y plentyn yn eu deall.
- Ystyriwch sut y byddwch yn holi barn y plentyn cyn y cyfarfod i drafod y cynllun diogelwch – gallai fod yn well i'w gweithiwr allweddol siarad â nhw am hyn.

- Meddyliwch sut y gallai oedolion ychwanegol fod ar gael i gefnogi'r plentyn, ac a oes unrhyw anghenion mynediad, cyfarpar neu adnoddau. Gallai fod angen lle mwy i gyfarfod os bydd oedolion ychwanegol yn yr ystafell.

- Meddyliwch am y trefniadau eistedd fel na fydd y plentyn yn teimlo'n gyfyng

**Yn ystod** pob cyfarfod y byddwch yn ei gael â'r plentyn:

- Sicrhewch fod dŵr ar gael a threfnwch i gael toriad; lle bo'n briodol, gallwch ofyn i'r plentyn ddangos/rhoi signal i gael toriad.

- Cadwch beth bynnag sydd ei angen i hwyluso'r sgwrs (fel propiau, cardiau atgoffa, lluniau a theganau cysur) wrth law.

- Dylid cadarnhau dealltwriaeth y plentyn wrth fynd, nid dim ond ar ddiwedd y cyfarfod.

- Byddwch yn barod i ailadrodd eich hun. Os yw'r plentyn yn teimlo dan straen oherwydd beth sy'n digwydd, gallai fod yn anodd iddynt gyfrannu; nid yw'n golygu o reidrwydd nad ydynt yn gwrando neu'n deall.

- Peidiwch â disgwyl i'r plentyn ddal eich llygaid na chydnabod beth a ddywedwch bob tro. Gallai straen, embaras neu gywilydd y sefyllfa effeithio ar hyn felly ni ddylid ei ddehongli fel nad oes gan y plentyn ddiddordeb yn yr hyn a ddywedwch

**Ar ôl** pob cyfarfod:

- Cytunwch â rhiant, gofalwr a/neu weithiwr allweddol y plentyn sut y bydd y negeseuon o'r cyfarfod yn cael eu cyfathrebu i'r plentyn i gynorthwyo eu dealltwriaeth ymhellach, yn y cartref a'r ysgol.

- Gallai fod angen monitro plant gyda AAA yn amlach i'w helpu i dderbyn yr holl gymorth sydd ar eu cyfer – dylech sicrhau y cofnodir hyn mewn dyddiadur a pheidio gadael pethau tan sesiynau 'dal i fyny'.





# Atodiadau

Atodiad 1.

# Datblygu protocol/polisi ar ymateb i ymddygiad rhywiol niweidiol

Er y gall yr adnodd hwn gynorthwyo eich ymateb i ddigwyddiadau unigol o ymddygiad rhywiol niweidiol, byddai'n ymarfer da bod gan eich ysgol brotocol/polisi clir yn ei le i dywys eich penderfyniadau; fel arfer bydd hyn yn rhan o bolisi ymddygiad eich ysgol a dylai gynnwys ymyriadau posib ar gyfer digwyddiadau o arwyddocâd isel, cymedrol a difrifol.

Meddyliwch ymlaen a thrafod **problemau a allai godi yn eich lleoliad**. Er enghraifft:

- Sut y gallai anghenion y plant gael eu rheoli mewn gwahanol senarios?
- A allwch geisio ddod i gytundeb ag ysgol gyfagos i dderbyn plentyn dros dro, pe bai angen?
- A sut y gallech gyfathrebu â'r gymuned ysgol am ddigwyddiad mewn ffordd sy'n rhoi sicrwydd, sicrhau cyn lleied o hel clecs a sibrydion â phosib, atal gwaethygu'r sefyllfa a chynnal perthnasoedd positif?

Gallai'r drafodaeth hon helpu i greu syniadau a chynnig atebion nad ydynt efallai'n hawdd meddwl amdanynt pan fyddwch yng nghanol delio â digwyddiad emosiynol.

Dylech hefyd ofyn am **fewnbwn allanol** i'r protocol/polisi:

- Trafod sut y rheolir ymddygiad rhywiol niweidiol yn eich rhwydweithiau proffesiynol – beth y mae Arweinwyr Diogelu Dynodedig eraill wedi'i roi yn ei le, ac a allech rannu ymarfer?
- Pa argymhellion sydd gan eich Swyddog Dynodedig Awdurdod Lleol? A allent rannu ymarfer mewn ysgolion eraill? A allent eich cysylltu i dîm cyfathrebu eich Awdurdod Lleol?

Wrth gwrs, rhaid i'r protocol/polisi gael ei ategu gan, gan hefyd weithredu, canllawiau Llywodraeth Cymru gan gynnwys *Cadw Dysgwyr yn Ddiogel* ac *Canllawiau i Leoliadau Addysg am Gam-drin Rhywiol, Camfanteisio ac Ymddygiad Rhywiol Niweidiol gan Gyfoedion.* Unwaith y bydd wedi'i ysgrifennu, dylid ei rannu â'ch swyddog cyswllt heddlu neu dîm plismona cymunedol.

Gellir ychwanegu at ac adolygu'r protocol/polisi dros amser. Gallai hyn fod yn weithgaredd datblygiad proffesiynol parhaus neu'n eitem ar agenda cyfarfod yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, er enghraifft.

# Sefydliadau ac adnoddau defnyddiol

Mae'r adnoddau a restrir yma, gan gynnwys rhai a gynhyrchwyd y tu allan i'r DU, yn rhoi gwybodaeth arbennig o ddefnyddiol i chi, plant a rhieni.

## *Adnoddau ar gyfer gweithwyr addysg proffesiynol*

| Teitl | Cynhyrchwyd gan |
|---|---|
| ***Children and Young People Presenting with Harmful Sexual Behaviours: A Toolkit for Professionals*** | Cymdeithas y Plant (2018) |
| ***Information for Professionals on Supporting Children and Families after a Child Has Been Abused*** | Australian Child and Adolescent Trauma Loss and Grief Network |
| ***Recognising and Responding to Harmful Sexual Behaviour Displayed by Young People in Sport*** | NSPCC Child Protection in Sport Unit (2022) |
| ***Beyond Referrals: Harmful Sexual Behaviour (HSB) and Extra-familial Harm (EFH) in School Settings*** | Contextual Safeguarding Research Programme, Durham University |
| ***Cadw Dysgwyr yn Ddiogel*** | Llywodraeth Cymru (2022) |
| ***Canllawiau i Leoliadau Addysg am Gam-drin Rhywiol, Camfanteisio ac Ymddygiad Rhywiol Niweidiol gan Gyfoedion*** | Llywodraeth Cymru (2020) |
| ***Rhannu Delweddau Noeth a Hanner Noeth: Ymateb i Ddigwyddiadau a Diogelu Plant a Phobl Ifanc*** | Llywodraeth Cymru (2022) |
| ***Supporting You to Deliver Education and Raise Awareness of Online Child Abuse and Exploitation*** | Asiantaeth Troseddu Genedlaethol: CEOP Education |
| ***Understanding Sexualised Behaviour in Children*** | NSPCC |
| ***Technology Assisted Harmful Sexual Behaviour and Children and Young People*** (recordiad fideo o weminar) | Children and Young People's Centre for Justice (2021) |
| ***Children and Young People Who Engage in Technology-assisted Harmful Sexual Behaviour: A Study of Their Behaviours, Backgrounds and Characteristics*** | NSPCC (2017) |
| ***Technology-assisted Harmful Sexual Behaviour*** (podlediad) | NSPCC (2021) |
| ***Engagement with Support Services for Ethnic Minority Communities*** | Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (2021) |

### *Gwybodaeth a chyngor i blant a phobl ifanc*

| Teitl | Cynhyrchwyd gan |
|---|---|
| ***Advice for Young People*** (ar bynciau'n cynnwys 'Am I being abused?' a 'Abusive teenage relationships') | Cymdeithas y Plant |
| ***Jessie & Friends*** (gêm a fideos i helpu plant 4-7 oed i ddysgu am ddiogelwch ar-lein) | Asiantaeth Troseddu Genedlaethol: CEOP Education |
| ***Band Runner*** (gêm a fideos i helpu plant 8-10 oed i ddysgu am ddiogelwch ar-lein) | Asiantaeth Troseddu Genedlaethol: CEOP Education |
| ***The Internet, Relationships and You*** (cyngor i blant a phobl ifanc 11-18 oed ar ddiogelwch ar-lein) | Asiantaeth Troseddu Genedlaethol: CEOP Education |
| ***Helping a Friend*** | Childline |
| ***Mental Health: How Can I Help Someone Else Seek Help?*** | MIND |
| ***Going to Court*** | Cymorth i Ddioddefwyr |

### *Sefydliadau i blant a phobl ifanc*

| Sefydliad | Manylion |
|---|---|
| **The Mix** | Cymorth a chyngor ar ystod o wahanol bynciau. |
| **Brook** | Cyngor ar iechyd rhyw a lles. |
| **Coram Voice** | Cymorth i blant mewn gofal ac yn gadael gofal. |
| **Look Ahead** | Cymorth i bobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal neu wedi cael problemau yn y cartref, i'w helpu i ddatblygu'r sgiliau a'r hyder sydd ei angen arnynt i fyw'n annibynnol. |
| **Muslim Youth Helpline** | Cymorth diwylliannol-sensitif i bobl ifanc Mwslemaidd dan 25 yn Llundain; gwasanaethau allgymorth gan gynnwys cyfryngu teuluol, cwnsela wyneb yn wyneb a chyfeillio. |
| **National Youth Advocacy Service** | Gwybodaeth, cyngor, cymorth, eiriolaeth a chynrychiolaeth gyfreithiol i blant a phobl ifanc sydd neu sydd wedi bod mewn gofal. |
| **Runaway Helpline** | Llinell gymorth i blant sy'n meddwl am redeg i ffwrdd, sydd wedi rhedeg i ffwrdd neu sy'n poeni am rywun yn rhedeg i ffwrdd. |
| **The Ollie Foundation** | Elusen ymwybyddiaeth hunanladdiad yn rhoi help a chymorth cyfrinachol i bobl ifanc ac unrhyw un sy'n poeni am berson ifanc; mae'r gwasanaethau'n cynnwys hyfforddiant ymwybyddiaeth ac atal hunanladdiad a sesiynau cymorth iechyd meddwl ar-lein wythnosol ac am ddim i bobl ifanc. |
| **Marie Collins Foundation** | Cymorth i blant sydd wedi cael eu cam-drin ar-lein, a'u teuluoedd. |

## *Adnoddau i rieni*

| Teitl | Manylion | Cynhyrchwyd gan |
|---|---|---|
| ***Harmful Behaviour in Young People and Children*** | Gwybodaeth i rieni gyda phlant sydd wedi dangos ymddygiad rhywiol niweidiol. | Parents Protect |
| ***Harmful Sexual Behaviour Prevention Toolkit*** | Cyngor i rieni ar greu amgylchedd cartref diogel ac ar siarad â'u plant am bethau fel pornograffi a pherthnasoedd iach. | Lucy Faithfull Foundation (2022) |
| ***The Internet and Children… What's the Problem?*** | Cyngor ar beryglon ar-lein ac awgrymiadau ar helpu plant i aros yn ddiogel ar-lein. | Lucy Faithfull Foundation |
| ***What's the Problem?*** | Canllaw i rieni gyda phlant y cafwyd eu bod wedi bod yn cymryd rhan mewn gweithgaredd pryderus ar-lein. | Lucy Faithfull Foundation (2017) |
| ***Online Safety Guides for Parents*** | Gwybodaeth am sut i helpu plant i aros yn ddiogel ar y cyfryngau cymdeithasol. | NSPCC |
| ***Social Media Facts and Advice*** | Gwybodaeth i helpu teuluoedd i ddelio â'r peryglon a'r manteision y gall y cyfryngau cymdeithasol eu cyflwyno. | Internet Matters |
| ***Help Your Children Get the Most Out of the Internet*** | Cyngor i rieni ar gadw plant yn ddiogel ar-lein a delio gyda phryderon. | Asiantaeth Troseddu Genedlaethol: CEOP Education |
| ***Still We Rise*** | Canllaw i rieni ar adnabod arwyddion o drais ar sail rhywedd, deall y trawma y mae'n gallu ei achosi, a chynnig cefnogaeth effeithiol. | Women and Girls Network (2020) |

## *Sefydliadau sy'n rhoi cymorth i rieni*

| Sefydliad | Manylion |
|---|---|
| **Acts Fast** | Cymorth emosiynol ac ymarferol i rieni a theuluoedd plant sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol. |
| **Marie Collins Foundation** | Cymorth i blant sydd wedi cael eu cam-drin ar-lein, ac i'w rhieni a theuluoedd. |
| **Mosac** | Cymorth ymarferol ac emosiynol i rieni plant sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol, gan gynnwys drwy linell gymorth gyfrinachol. |

Canolfan CPRh,
Tanners Lane,
Barkingside,
Ilford, Essex,
IG6 1QG.

Tynnwyd y ffotograffau yn y cyhoeddiad hwn gan ddefnyddio actorion ac nid ydynt yn darlunio sefyllfaoedd gwirioneddol.